
# Adroddiad Blynyddol 1999-2000



CYNGOR
CEFN GWLAD
CYMRU

COUNTRYSIDE
COUNCIL
FOR WALES

## 1999 - 2000 RHAI CYFLAWNIADAU

- Cyhoeddi adroddiad *Amgylchedd Iach i Gymru* fel meincnod o gyflwr arfordir a chefn gwlad Cymru.
- 44 o Safleoedd newydd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) wedi eu dynodi.
- 3,000 hectar ychwanegol o dir a ddynodwyd fel SoDdGa wedi eu rhoi dan reolaeth bositif ar gyfer gwella'u cyflwr.
- Llyffantod y twyni wedi bridio yn Nhalacre am y tro cyntaf ers y 1950au.
- Poblogaeth madfall y tywod ar Forfa Harlech yn cynyddu.
- Parhau i adfer mawndir yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol a Cors Fochno, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Mwsoglau Bettisfield a Whixall.
- Nifer yr hectarau o'r tir a neilltuwyd ar gyfer dulliau ffermio sy'n sensitif i'r amgylchedd wedi cynyddu 28%, sef cynnydd o 60,000 hectar, drwy gyfrwng cynllun Tir Gofal.
- 1,200 km o Lwybrau Cyhoeddus wedi cael eu gwella drwy gymhorthdal grant CCGC.
- System LANDMAP ar gyfer asesu effaith datblygiad arfaethedig wedi cael ei mabwysiadu gan 13 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

CCC 180 2.5k
ISBN 1 86169 082 7
Argraffwyd gan: Aztec

CYNGOR
CEFN GWLAD
CYMRU

COUNTRYSIDE
COUNCIL
FOR WALES

# Adroddiad Blynyddol 1999-2000

# CYNNWYS










Rhagair gan y Cadeirydd ....................5

Trosolwg ....................6

Adroddiad am gyflwr yr amgylchedd ....................9

Y sefyllfa sy'n wynebu amaethyddiaeth yng Nghymru ....................11

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ....................14

Cynnydd yn y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ....................17

Gwella ein gwybodaeth am yr amgylchedd natutiol ....................18

Cynlluniau ar gyfer gwella mynediad i gefn gwlad ....................22

Datblygiad cynaliadwy ....................25

  Addysg ac hyfforddiant ....................27

  Rhaglen Cymhorthdal Grant CCGC ....................28

Atodiad 1: Perfformiad yn erbyn Targedau
Cynllun Corfforaethol 1999-2000 ....................29

Atodiad 2: Rhestr o acronymau ....................31

Datganiadau o gyfrifon ....................33



# Rhagair gan y Cadeirydd



Ar ddechrau fy rhagymadrodd i'm Hadroddiad Blynyddol cyntaf fel Cadeirydd CCGC, dymunaf fynegi fy nheyrnged wresocaf i'm rhagflaenydd, Michael Griffith. Gŵyr pawb am ei ymroddiad ef i wasanaeth cyhoeddus, ond mae'r rhan a chwaraeodd fel y Cadeirydd Siarter yn y gwaith o sefydlu CCGC yn ystod y 9 mlynedd cyntaf o fodolaeth y Cyngor wedi bod yn un aruthrol.

Ymysg ei gyflawniadau niferus yma, credaf mai'r un y mae ef yn ymfalchïo fwyaf ynddo yw ei fod wedi datblygu cynllun peilot amaeth-amgylcheddol Tir Cymen sy'n batrwm i Ewrop gyfan, gan ei drosi o dan gyfarwyddyd CCGC i fod yn gynllun presennol Tir Gofal ledled Cymru. Yn anad dim arall, mae'r gwaith yma'n cyfleu ei gred angerddol y gall cadwraeth natur gyd-fyw â dulliau amgylcheddol-gyfeillgar o amaethu ac y gall amaethyddiaeth yng Nghymru gynhyrchu bwyd o ansawdd da ar gyfer y defnyddiwr mewn modd a fydd yn sicrhau hyfywedd ein cymunedau gwledig.

Mae hefyd wedi cefnogi'r angen am fwy o fynediad i gefn gwlad, a bu ei gadeiryddiaeth o Fforwm Mynediad Cymru am lawer blwyddyn yn gyfraniad hynod o werthfawr tuag at ddatblygu perthnasau adeiladol ac effeithlon rhwng diddordebau'r tirfeddianwyr a'r rhai a geisiai fwy o gyfleoedd am fynediad.



Hafod Elwy

Yn y dasg anodd o ddilyn ôl troed Michael, teimlaf anogaeth fawr o weld ymrwymiad ac arbenigedd fy nghydaelodau ar y Cyngor a'i swyddogion. Gobeithiaf ddatblygu a harneisio'r arbenigedd hwnnw ar draws yr ystod helaeth o gyfrifoldebau CCGC, gan roi pwyslais neilltuol ar y ffaith eu bod yn ymwneud â'n dyfroedd arfordirol lawn cymaint ag y gwnant â'n cefn gwlad.

Yn ystod fy chwe mis cyntaf yma, fe'm synnwyd gan yr ystod a'r foliwm o waith y disgwylir i CCGC ei wneud. Ni chyfyngir y gwaith i ddiffiniadau culion o warchodaeth natur, diogelu'r tirwedd a hyrwyddo mwynhad yng nghefn gwlad. Gelwir arnom i chwarae rôl ehangach o gefnogi datblygiad cynaliadwy mewn partneriaethau sy'n gweithredu o fewn cyd-destun Ewropeaidd, ac ehangach na hynny. Dengys yr adroddiad hwn sut yr ydym ni, gyda'r adnoddau sydd ar gael, yn ymateb i'r her honno.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd gennym ddrafft Datganiad o Weledigaeth am y modd yr hoffem weld Cymru ymhen 10 mlynedd. Yng ngoleuni sylwadau ein partneriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol, byddwn wedyn yn cynllunio cwrs ein gwaith dros y 10 mlynedd nesaf. Odid na chawn rai anawsterau, ond rwyf i'n bersonol yn falch o fod yn rhan o dîm sy'n dangos ymroddiad mor ffyddlon i wasanaethu diddordebau Cymru.



John Lloyd Jones
Cadeirydd

# Trosolwg


Corsle, Llyn Crafnant

Roedd 1999 yn flwyddyn pan oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n pwyso a mesur ei safle a'i rôl ac yn mynd ati i lunio'i gwrs ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Gwnaed hyn o fewn fframwaith polisi a oedd yn cael ei ddatblygu gan y Cynulliad Cenedlaethol newydd, gan gadw golwg ar yr angen i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth cadwraeth natur yr Undeb Ewropeaidd a'r angen i helpu i baratoi deddfwriaeth newydd ar gyfer Lloegr a Chymru ynghylch mynediad a chadwraeth natur. Roedd gennym ran fawr hefyd yn y gwaith o gynghori sut i gymhwyso'r rhaglen Cyllid Adeileddol Ewropeaidd ar gyfer Cymru mewn modd a fyddai'n cynhyrchu datblygiad cynaliadwy, gan arbed gwneud difrod i'r amgylchedd naturiol gan fynd ati i'w wella. Parhaodd ein cyfraniad tuag at ddatblygiad cynaliadwy mewn ystyr ymarferol hefyd; drwy weithio gyda'r datblygwyr pan oeddem yn ystyried y 1200 o geisiadau cynllunio y gofynnwyd inni yn ffurfiol roi ein cyngor arnynt yn ystod y flwyddyn, roeddem yn medru gofalu bod y datblygiadau'n mynd rhagddynt mewn modd cynaliadwy ar 99% o'r cynlluniau heb achosi difrod annerbyniol i'r amgylchedd neu'r tirwedd, a heb i ninnau orfod eu gwrthwynebu.

Ym mis Mehefin, cyflwynodd CCGC a'r Comisiwn Coedwigaeth adroddiad ar y cyd am Gyflwr yr Amgylchedd Byw i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan roi braslun o gyflwr yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Wedyn fe baratowyd drafft Datganiad o Weledigaeth ynghylch y modd y byddai CCGC yn ceisio gwella amgylchedd Cymru dros y 10 mlynedd nesaf ynghyd â hawl y trigolion a'r ymwelwyr i'w fwynhau. Cyhoeddwyd y drafft ar gyfer ei drafod yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.

Yn y blynyddoedd sydd i ddod, Tir Gofal, sef cynllun amaeth-amgylcheddol Cymru gyfan a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1999 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, Mr Alun Michael, fydd un o gonglfeini'r math o reolaeth tir sy'n sensitif i'r amgylchedd yng Nghymru. Gwelwyd bod y gwaith o gyflwyno'r cynllun yn fwy beichus hyd yn oed nag y

disgwyliwyd oherwydd na ddychmygwyd naill ai maint mawr y ffermydd a geisiai na chymhlethdod y cynllun. Bu'n rhiad inni aildrefnu rhaglen y gwaith ar gyfer yr hydref a drafftio mwy o staff i mewn o fannau eraill yn y sefydliad er mwyn iddynt ymweld â'r ffermydd cyn i gynigion ffurfiol o'r cytundebau gael eu gwneud. Roedd hyn erbyn amod disgwyliedig yr Undeb Ewropeaidd y dylid gwneud cynigion cyn 31 Rhagfyr.

Yn ail hanner y flwyddyn, bu'n rhaid inni wynebu cynnydd arall annisgwyl yn swm y gwaith pan benderfynodd y Comisiwn Ewropeaidd y byddai rhaid i Gymru, ynghyd â'r 3 gwlad arall yn y DG, gyflwyno mwy o ymgeiswyr am Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (yACA), er mwyn i'r Undeb Ewropeaidd ystyried eu cynnwys yn nghyfres Natura 2000 o ardaloedd cadwraeth Ewropeaidd. Gyda chyllideb 1999 yn sefyll yn stond ers 1998 a'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mai dim ond 0.8% % fyddai'r cynnydd yn ein cyllideb gyffredinol ar gyfer 2000, roedd yn anodd gweld am beth amser sut y byddem yn medru mynd ymlaen gyda'r gwaith. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2000, gallodd yr Ysgrifennydd Cyllid, Edwina Hart, ac Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Sue Essex, gyhoeddi bod cyllid ychwanegol i gael ei roi dros y 2 flynedd ddilynol ar gyfer gwneud y gwaith o ddynodi mwy o yACA.

Ac yntau wedi ymateb i amrywiol bapurau ymgynghori a gyhoeddwyd ar gynigion mynediad y Llywodraeth ac er mwyn gwella deddfwriaeth gwarchodaeth natur, croesawodd CCGC gyhoeddiad Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy y Llywodraeth ym mis Chwefror. Aethom ati i neilltuo adnoddau er mwyn mynd ymlaen â'n gwaith paratoi ar gyfer cynllunio cyllid am 2000. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cyllid 0.8m ychwanegol ar gyfer CCGC am y flwyddyn 2000 i helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a hefyd i alluogi adfer y cyllid cymhorthdal grant a fyddai, fel arall, wedi gorfod cael ei leihau.

Er bod pwysau'r rhaglenni Tir Gofal ac yACA wedi amharu'n anochel ar beth o'r rhaglen ar gyfer y gwaith a gynlluniwyd gan CCGC, llwyddwyd i ddangos cynnydd ar draws yr holl ystod o dargedau perfformiad CCGC a gyhoeddwyd yn flaenorol yng Nghynllun Corfforaethol CCGC am y flwyddyn. Dangosir hyn yn Atodiad 1.

- Cynigiwyd cytundebau Tir Gofal i 472 o ffermwyr.
- Dynodwyd 44 o SoDdGA.
- Trefnwyd i ddiogelu 500 hectar o gynefinoedd a restrwyd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DG.
- Gwnaed gwelliannau ar 1200 km o Lwybrau Cyhoeddus.

Ar wahân i hynny, gallodd ein cymhorthdal grant roi cefnogaeth i waith cydategol ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Daliodd yn agos i 1,100 o ffermydd, a gwmpasai fwy na 80,000 hectar o dir amaeth, i dderbyn cymhorthdal grant a chyngor o dan gynllun amaeth-amgylcheddol Tir Cymen CCGC. Gyda golwg ar reoli'r SoDdGA yn bositif a buddiol, gwnaed 45 o gytundebau eraill gyda thirfeddianwyr ynghylch 3,000 hectar o dir, sy'n golygu cyfanswm o 562 o gytundebau a 45,981 o hectarau.


Enfys dros Pen Llŷn a'r Sarnau


Cors mewn ffermdir, De Morgannwg


Capiau cwyr pinc

Ymgymerwyd â rhaglen gynhwysfawr i ddatblygu technegau monitro ar gyfer eu defnyddio mewn yACA morol dan ystyriaeth, a gwnaed cynnydd yn natblygiad cynlluniau rheoli ACA morol a thirol. Oherwydd prinder adnoddau, fodd bynnag, ni lwyddasom i wneud cynnydd mewn oddeutu 50% o'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y disgwylid inni gyfrannu tuag at Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DG arnynt.

Peth hynod o ddymunol oedd gweld 13 allan o'r 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn yn defnyddio neu'n datblygu LANDMAP, dull o wneud penderfyniadau asesiad tirwedd a ddatblygwyd gan CCGC. Enillodd y defnydd a wnaeth Cyngor Sirol Bro Morgannwg o LANDMAP wobr gan Sefydliad Tirwedd.

## Gwella ein gwasanaethau

O ganlyniad i ymgymryd â chynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal a hefyd oherwydd y gofynion cynyddol ar ein gwaith morol, cynyddodd y nifer o staff cyflogedig o 350 i 387. Buom yn gweithredu ar gynllun y Llywodraeth i gael pobl a fu'n ddi-waith am dymor hir yn ôl i weithio, drwy'r cynllun Y Fargen Newydd. Cyflogwyd 12 o weithwyr i gynllun Y Fargen Newydd gennym, ac roeddem yn medru cynnig swyddi parhaol i 4 ohonynt.

O fewn y sefydliad, daliwyd ati i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Er i gyfanswm ein costau rhedeg godi 848,000 (+7%) y llynedd, a oedd, yn bennaf, yn adlewyrchu costau dechreuol y cynllun Tir Gofal a'r staff a oedd yn angerheidiol ar ei gyfer, llwyddasom, fodd bynnag, i ostwng cost uned gorbenion pob person a oedd yn gyflogedig gennym gymaint â 2.5% o gost y flwyddyn flaenorol.

Sefydlwyd grŵp newydd gennym o fewn y sefydliad i ganolbwyntio mwy ar lwyddo i gael y gwerth gorau a hefyd i chwilio am gyfleoedd i ddod o hyd i ffynonellau cyllid ar wahân i'r cyllid a ddaw o'r Cynulliad Cenedlaethol. Fel rhan o raglen barhaol o astudiaethau effeithlonrwydd, buom yn adolygu gweinyddiaeth ein rhaglen grantiau, a bydd y modd y gweithredir argymhellion y rhaglen yn arwain at welliannau yn y ffordd y proseswn gymhorthdal grantiau i'r sefydliadau sy'n bartneriaid inni. Mae'r Cyngor wedi croesawu bwriad y Cynulliad Cenedlaethol i wneud Adolygiad Pum Mlynedd o'r sefydliad yn 2000-01, ac mae'n edrych ymlaen at weld hyn yn gyfrwng i atgyfnerthu ei athroniaeth o wellhad parhaol yn ei effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd.

Drwy broses Cyngor Whitley a thrafodaeth reolaidd gyda'r ddau Undeb Llafur cynrychioliadol, daliwyd i roi blaenoriaeth uchel i'r cyfranogiad a roddai'r staff i reolaeth CCGC. Mater o bryder a erys heb ei ddatrys yw'r impact cynyddol o fod taliadau pensiwn yn dod allan o gyllid ein cyflogau, ac mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei setlo yn y blynyddoedd nesaf

Parhaodd CCGC i roi pwysigrwydd mawr i'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac anogwyd ei datblygiad ymysg y staff, gydag oddeutu 80 o bobl yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ieithyddol.

# Adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd



Yr Wyddfa

Bu cyhoeddi'r ddogfen *Amgylchedd Iach i Gymru* ym Mehefin 1999 yn gyfrwng inni fedru rhoi ciplun cynhwysfawr o gyflwr amgylchedd naturiol Cymru. Fe'i hysgrifennwyd drwy gydweithrediad â'r Comisiwn Coedwigaeth, ac, ynghyd â'i chwaer-ddogfen A Working Environment for Wales a ysgrifennwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, mae'n werthusiad unigryw o rywogaethau, cynefinoedd a thirweddau Cymru, ac fe fydd yn sylfaen i lawer o'n gwaith yn y dyfodol ac i'r cyngor a roddwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ac eraill.

Mae *Amgylchedd Byw i Gymru* yn disgrifio'r lleihad sylweddol o gynefinoedd bywyd gwyllt a gafwyd– o weirgloddiau blodeuog i rosydd yr ucheldiroedd – yn arbennig yn ystod y degawdau ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Cofnodir hefyd y lleihad mewn llawer o rywogaethau a fu'n rhai cyfarwydd ar un adeg, megis cornchwiglod a llygod pengrwny dŵr, a ddibynnai ar y cynefinoedd hynny. O ganlyniad, mae llawer o'r tirweddau hyfryd yng Nghymru, gyda'u lliwiau tymhorol, wedi lleihau hefyd.

Ond mae yn yr adroddiad le i fod yn optimistig. Erys llawer o gynefin cyfoethog, yn enwedig yn yr ucheldiroedd. Mae mwy ohono'n cael ei warchod yn well nag erioed o'r blaen gan y dynodiadau a gymhwyswyd gennym – rhai ohonynt yn ofynion rhyngwladol – ac, yn bwysicach, gan y cytundebau rheoli tir yr ydym yn eu sicrhau gyda'u tirfeddianwyr. Mae Tir Gofal, a'i ragflaenydd Tir Cymen, wrthi'n arloesi dull newydd a phositif o ddiogelu'r cynefinoedd presennol, y tirweddau a'r nodweddion hanesyddol sydd ar y ffermydd ac yn talu am greu cynefinoedd newydd.

Rhydd ein hadroddiad sylw neilltuol hefyd i'r cyfoeth hynod o gynefinoedd, planhigion ac anifeiliaid sydd yn y moroedd o gwmpas arfordir Cymru. Cydnabyddir eu harwyddocâd Ewropeaidd drwy fod bron hanner ein dyfroedd arfordirol wedi cael eu cymeradwyo i'r Llywodraeth am statws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o dan Orchymyn Cynefinoedd yr UE, sy'n gyfran fwy o lawer na'r rhai ar y tir.

## Ein gweledigaeth ar gyfer Cymru

Nid yw ein hadroddiad yn ddogfen statig. Bydd yn cael ei adolygu'n achlysurol ac – yn fwy pwysig – mae'n awr yn ffynhonnell y buom yn tynnu oddi wrtho er mwyn penderfynu beth yw ein gweledigaeth ar gyfer etifeddiaeth naturiol Cymru ymhen deng mlynedd. Mae ein Datganiad o Weledigaeth, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gynhyrchu ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghoriad helaethach gyda'r cyhoedd, wedi cael ei ysgrifennu gyda thri amcan cyffredinol:

- gwella ein hamgylchedd naturiol;
- annog defnydd cynaliadwy ohono;
- hyrwyddo cyfleoedd i'w fwynhau'n fwy.

Y weledigaeth sydd gennym yw Cymru gyda mwy o gymeriad yn ei gwedd. Dymunwn weld ei chefn gwlad a'r ardaloedd amgylchynol yn:

- cynnal mwy o fywyd gwyllt ac o'r cynefinoedd y mae'r rhywogaethau'n dibynnu arnynt;
- cael eu rheoli drwy ddarparu cyflogaeth gynaliadwy; a
- gwella cysuron a mwynhad trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.



# Y sefyllfa sy'n wynebu amaethyddiaeth yng Nghymru



Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wynebodd diwydiant ffermio Cymru anawsterau sylweddol. Mae'r anawsterau'n fwy na rhai economaidd. Mae llai o bobl ifanc nag erioed yn dod i lenwi esgidiau'r boblogaeth o ffermwyr sy'n heneiddio, a heb ddiwydiant ffermio cytbwys a hyfyw i chwarae ei ran i reoli'r tir mewn modd sy'n sensitif i'r amgylchedd ni fedrwn gyflawni ein hamcanion o wella ein hamgylchedd naturiol.

Felly, heblaw gweithredu Tir Gofal a Thir Cymen, mae gan CCGC ddiddordeb mawr i ymorol am ddyfodol holl dir amaeth Cymru. Am hynny, buom yn chwarae rhan lawn mewn llawer o ymgynghoriadau a thrafodaethau o dan ddiwygiadau Agenda 2000 Polisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys trafodaethau cyfredol am ddyfodol y gefnogaeth i Ardaloedd Llai Ffafriedig – y cynllun Tir Mynydd – Cynllun Datblygu Cefn Gwlad, a llawer o agweddau eraill ar gefnogaeth ffermydd, sy'n cynnwys y Grŵp Datblygu Ffermydd a sefydlwyd i hybu agweddau ar Strategaeth Fwyd Cymru.

Byddwn yn cadw cysylltiadau gweithiol agos gyda'r holl grwpiau sy'n cynrychioli ffermio a pherchnogaeth tir ynghylch yr holl faterion hyn a materion eraill. Mae ein gwaith ar faterion amaethyddiaeth a choedwigaeth yn ymwneud â phrifysgolion hefyd, ac â'n chwaer-asiantaethau yn Lloegr a'r Alban, yn ogystal â phartneriaid o rannau eraill o Ewrop sy'n cydrannu ein gweledigaeth am amaethyddiaeth newydd a rydd sylw canolog i reolaeth yr amgylchedd.

## Tir Gofal – Y 12 Mis Cyntaf

Mae Tir Gofal yn ganolog i'n gwaith amaethyddol. Mae'n gynllun newydd sy'n cwmpasu'r fferm gyfan ac sydd wedi bod ar gael ledled Cymru ers mis Mawrth 1999. Bwriad y cynllun yw annog dulliau amaethyddol a fydd yn diogelu ac yn ychwanegu at harddwch tirweddau Cymru, eu nodweddion diwylliannol a'r bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â hwy. Un o amcanion eraill Tir Gofal yw gwella mynediad cyhoeddus i ardaloedd tir ffermio cefn gwlad, a darparu cyfleoedd newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant amgylcheddol ar y

ffermydd. Gwneir cytundeb yn wirfoddol a thelir y costau'n rhannol gan yr UE o dan ddarpariaeth y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Lluniwyd y cynllun newydd i gynnwys nodweddion gorau ei ragflaenwyr, yn arbennig cynlluniau cyflawn ar gyfer ffermydd – cynlluniau megis Tir Cymen ac Ardaloedd Amgylcheddol Arbennig yn ogystal â rhaglenni sy'n ymwneud yn rhannol â ffermydd, megis Cynllun Cynefinoedd. Mae CCGC yn gweinyddu cyflwyniad rhaglen Tir Gofal ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o drefniant partneriaethol gydag Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rydym yn gweithio, ar yr un pryd, yn agos gydag ystod eang o fudiadau eraill sy'n cynnwys y Comisiwn Coedwigaeth, Cadw (Henebion Hanesyddol Cymru), Asiantaeth yr Amgylchedd, y tair undeb amaethyddol, a'r sector gwirfoddol.

Mae pob cytundeb Tir Gofal yn ymgorffori Adran Fferm Gyflawn sylfaenol sy'n galw am y minimwm o ofynion amgylcheddol yn y daliad cyflawn. Ar wahân i hynny, mae'n rhaid i unrhyw gynefinoedd presennol o fywyd gwyllt ar y fferm gael eu rheoli yn unol â'r canllawiau cyhoeddiedig. Yn ychwanegol, gan fod rhaid i'r holl geisiadau am ymuno â'r cynllun gyrraedd safon amgylcheddol er mwyn bod yn gymwys, bydd llawer o'r ymgeiswyr yn cyflwyno cynlluniau i greu cynefinoedd newydd, megis coetir, yn ogystal ag adfer nodweddion y tirwedd, megis gwrychoedd a waliau cerrig. Hefyd, gall y cynlluniau a gynigir gynnwys darparu mynediad cyhoeddus newydd, creu coridoriau ar lannau'r nentydd, a rheoli tir âr heb ddefnyddio plaladdwyr.

Bydd gweithredu Tir Gofal yn cyfrannu'n sylweddol at amcanion tymor hir CCGC ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth a thirweddau gwerthfawr, yn ogystal â darparu mynediad cyhoeddus newydd a rydd i bobl well dealltwriaeth o gefn gwlad. Yn anad dim, fe fydd y cynllun yn helpu i gyrraedd targedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DG yn ogystal â dangos sut y mae egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn cael eu rhoi ar waith. Cyflwynwyd ychydig dros 1380 o geisiadau Tir Gofal erbyn yr adeg y daeth y rownd gyntaf o'r ceisiadau i ben ar 21 Mai. Aseswyd yr holl geisiadau yn ôl system safonol a detholwyd y 700 gorau er mwyn i swyddog prosiect ymweld â hwy. Roedd CCGC yn bur ymwybodol y byddai'r broses yma'n golygu gwrthod nifer fawr o geisiadau o ansawdd uchel, ac ers hynny mae'r Cyngor wedi argymell y Cynulliad Cenedlaethol i newid y broses ddethol er mwyn lleihau'r broblem hon. O ganlyniad i'r trafodaethau am hyn, bydd system newydd sy'n seiliedig ar safon neu drothwy minimwm cyhoeddedig yn cael ei defnyddio o'r ail rownd ymlaen.

Gwelwyd y byddai cyfartaledd y gost am bob cytundeb Tir Gofal yn fwy na chyfartaledd cost Tir Cymen, yr un y seilid arno'r amcangyfrif y byddai'r gyllideb yn galluogi 600 o ffermydd i ddod i mewn yn y flwyddyn gyntaf. Roedd maint cyfartalog y ffermydd yn fwy, a gwirfoddololdd llawer ohonynt i ddewis dulliau o reoli a fyddai'n darparu cynefinoedd gwell o lawer. Ymddangosai'n debygol mai dim ond 300 o ffermydd y gellid eu derbyn o fewn y gyllideb a drefnwyd. Ymatebodd y Cynulliad Cenedlaethol drwy ddweud ym mis Tachwedd y byddai'r gyllideb ar gyfer taliadau Tir Gofal yn 2000-01 yn cael ei dyblu i fod yn 5.48 m, a byddai hynny'n golygu medru rhoi cynigion i 600 o ffermydd.

Mae'n amlwg eisoes y bydd y Cynllun yn dod â buddiannau amgylcheddol mawr iawn, sydd yn debygol o fedru bod yn uwch o lawer nag y disgwyliwyd. Yn gyffredinol, ar gyfer pob 100 o gytundebau ffermydd Tir gofal, daw'r buddion a ganlyn:

10,600 hectar o dir yn y cynllun
550 hectar o goetir collddail
2750 hectar o rostir agored ar yr ycheldir (1983) a glaswelltir agored (766)
2766 hectar o laswelltir caeëdig heb ei wella neu wedi hanner ei wella
200 hectar o dir arfordirol
233 hectar o dir âr
46 km o goridoriau glannau afonydd ac o dir rhagod
32 kmo dir mynediad newydd ar gyfer y cyhoedd
18 o henebau cofrestredig

Un llwyddiant arbennig a gafwyd oedd bod yr ardal o dir a dderbyniwyd i fod yn rhan o'r cynllun ym mlwyddyn 1 – oddeutu 60,000 hectar

– yn fwy o lawer na'r amcangyfrif gwreiddiol (c 40,000). Mae hyn yn gynnydd o 28% yn yr ardal o dir sydd mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae llawer ohono'n hynod o werthfawr i fioamrywiaeth ac i'r tirwedd.

Gobeithiwn y bydd mwy a mwy o ffermydd Cymru'n cael cyfle i ddod i mewn i'r cynllun, er mwyn eu helpu i ymdopi â'r trawsnewid y mae'n rhaid i'r diwydiant ei wneud, ar yr un pryd â dod â gwelliant sydd â gwir angen amdano i rai o'n cynefinoedd, rhywogaethau a thirweddau mwyaf gwerthfawr ac sydd i gyd dan fygythiad, gan agor mwy o gefn gwlad hardd Cymru i'r cyhoedd ei fwynhau.

## Tir Cymen

Yr ydym, wrth gwrs, yn dal i weithredu Tir Cymen gydag yn agos i 1100 o ffermwyr Cymru: mae'n waith sylweddol ac yn un na fwriadwn ei anwybyddu yng nghanol gwefr cynllun newydd Tir Gofal. Ochr yn ochr â'r Ardaloedd Amgylcheddol Arbennig a'r Cynllun Cynefinoedd, mae Tir Cymen yn un o genhedlaeth o gynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd, yn bennaf, yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 1990au ac a wnaeth gyfraniad aruthrol i fyd amgylcheddol ac amaethyddol Cymru.

Mae tros 3000 o ffermydd i gyd yn rhan o'r cynlluniau hynny, ac fel y bydd y degawd yn mynd ymlaen bydd y mwyafrif o'r cytundebau hynny'n dod i ben neu'n cyrraedd yr hyn a elwir yn bwynt torri'r cytundeb. Bydd llawer ohonynt yn dymuno dod yn rhan o Dir Gofal, ac ychydig fydd yn fodlon gweld gwelliannau amgylcheddol a wnaed dan y cynlluniau hynny yn cael eu colli. Mae llawer o gytundebau'r Ardaloedd Amgylcheddol Arbennig yn cyrraedd cymalau torri yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Bydd y cytundebau cyntaf sy'n dod i ben gyda Thir Cymen yn gwneud hynny yn 2002-03. Gobeithia CCGC y bydd modd i'r cyllid a roddwyd i Ardaloedd Amgylcheddol Arbennig a Thir Cymen gael ei ailgyfeirio i Dir Gofal, ac y bydd yn bosibl i'r ffermwyr a berthynai i'r Ardaloedd Amgylcheddol Arbennig ac i Dir Cymen ymuno â Thir Gofal os byddant yn dymuno.

## Coedwigaeth

Gwelodd 1999 ddechreuad datblygiad sylweddol mewn coedwigaeth pan ofynnodd y Cynulliad Cenedlaethol i'r Comisiwn Coedwigaeth ddatblygu Strategaeth Coetiroedd Cymru. Mae CCGC yn ymwneud yn agos â hyn, oherwydd er ein bod yn cydnabod y pwysigrwydd economaidd o gael cyflenwadau o goed ar gyfer adeiladu etc. yng Nghymru, credwn fod angen edrych o'r newydd am ffordd i ddelio â'r sefyllfa, ffordd a fydd yn golygu bod mwy o bwysigrwydd yn cael ei roi ar y gwerth sydd mewn llawer o'n coetiroedd o safbwynt yr amgylchedd, mwynderau a budd cymdeithasol.

Daliasom i gefnogi Coed Cymru yn y gwaith o reoli coedwigoedd a esgeuluswyd, er mwyn iddynt gael hyd i farchnadoedd ar gyfer eu cynhyrchion, ac i gefnogi Tir Coed, sy'n fenter fwy diweddar, er mwyn edrych am ffyrdd a chyfleoedd newydd i ehangu fforestydd a choetiroedd. Mae'r ddwy fenter wedi bod yn rhai arloesol, ac mae ganddynt lawer iawn i'w gynnig i'r Strategaeth newydd. Gwerthfawrogir cyswllt agos a chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd hefyd yn fawr iawn. Daliwyd i roi sylw i sefyllfa gwrychoedd wrth i'r rheoliadau sy'n gosod amodau ar y ffordd yr edrychir ar eu holau gael eu datblygu. Yng Nghymru, rhoddwyd cymorth i 593 km o wrychoedd gan gynllun blaenorol CCGC, Cynllun Adfer Gwrychoedd, gyda llawer o'r rhai a gyfranogai ynddo yn gorffen y gwaith yn y flwyddyn.



Blodau gwyllt ar ffin cae âr



Contractwyr lleol yn gweithio ar brosiect Tir Cymen



Maentwrog

# Safleoedd o Diddordeb Gwyddonol Arbennig



Pumlumon

Dynodiad SoDdGA o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yw'r cyfrwng cyfreithiol i ddiogelu ein bywyd gwyllt a'n nodweddion daearegol pwysig. Defnyddir y broses hefyd i ddiogelu'r ymgeiswyr ACA a ddynodir dan gyfraith yr UE. Yn ystod y flwyddyn, arnododd CCGC 40 o SoDdGA newydd, a wnâi'r cyfanswm o SoDdGA yn Nghymru yn 999. Newidiwyd ffiniau 4 o SoDdGA eraill ac unwyd 4 arall. Mae gan CCGC raglen gyson o arnodi SoDdGA posibl ar gyfer eu dynodi. Rhoir sylw blaenoriaethol i safleoedd sy'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau ac a gaiff flaenoriaeth gan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DG, i safleoedd sy'n sail i'r gyfres Natura 2000, i safleoedd Arolwg Cadwraeth Ddaearegol (y safleoedd pwysicaf o ran gwyddoniaeth y ddaear yn y DG), ac i unrhyw safloedd sydd dan fygythiad neu sydd mewn perygl ac angen eu diogelu yn ddi-oed.

Cafodd naw o SoDdGA newydd a dau SoDdGA presennol eu hysbysu neu eu dynodi i adlewyrchu eu pwysigrwydd daearegol. Roedd y safleoedd hyn yn cynnwys 13 o wahanol ardaloedd Arolwg Cadwraeth Ddaearegol lle ceir ardaloedd sy'n genedlaethol bwysig am eu ffosiliau, safloedd ar gyfer geomorffoleg afonol, a safleoedd lle ceir gwaddodion a thirffurfiau clasurol o Oes yr Iâ. Er enghraifft, mae ardaloedd ACDd yn Horton ac yn Slade Ddwyreiniol a Gorllewinol yn enghreifftiau o rai o'r dyddodion cyfordraethol ac amrewlifol gorau mewn unrhyw le ym Mhrydain. Bu'r ardaloedd hyn yn fodd i gael tystiolaeth hanfodol ar gyfer siartio patrymau yn newidiadau'r hinsawdd dros y 250,000 mlynedd diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd CCGC gyngor i'r Llywodraeth am y ffyrdd i atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol mewn cysylltiad â chadwraeth natur. Adlewyrchwyd hynny yn y cynigion yn Rhan III o'r Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sydd o flaen y Senedd ar hyn o bryd.

## Rheoli SoDdGA


Mae angen rheolaeth bositif ar lawer o'r SoDdGA er mwyn rhoi cynhaliaeth i'w diddordeb gwyddonol. Dros y blynyddoedd, gwnaeth CCGC 562 o gytundebau gyda thirfeddianwyr i ddiogelu SoDdGA, gan gynnwys rhoi taliadau am reolaeth bositif megis

lleihad yn lefelau'r stoc, llosgi grug a rheoli'r lefel trwythiad, a gweithiau cyfalaf megis ffensio. Roedd y gwariant ar hynny yn ystod y flwyddyn yn 1.9 miliwn. Cyflawnwyd 45 o gytundebau newydd ac mae hynny wedi rhoi cynnydd o 3000 hectar yn y maint o dir sy'n cael ei ddal dan gytundeb. Daeth y gyllideb ar gyfer rheoli SoDdGA dan bwysau mawr iawn yng nghwrs y flwyddyn ac, yng ngoleuni'r cynnydd cyffredinol cyfyngedig ar gyfer CCGC a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, gwnaeth y Cyngor benderfyniad amhleserus y byddai'n rhaid inni gwtogi ar ein rhaglen grantiau i'n partneriaid er mwyn rhoi mwy o allu inni i ddiogelu SoDdGA. Yn ffodus, galluogodd penderfyniadau diweddarach gan y Cynulliad i'nni fedru adfer y cymhorthdal grant cyffredinol i'n partneriaid.

## Ymgeiswyr am Ardal Cadwraeth Arbennig

O dan Orchymyn Cynefinoedd yr UE mae'n ofynnol i Lywodraeth y DG gyflwyno rhestr o safleoedd i'w hystyried fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sydd i'w cynnwys mewn cyfres o ardaloedd a gaiff eu diogelu ledled Ewrop ac a fydd yn cael eu galw'n Natura 2000. Mae'r rhestr o safleoedd yn y DG a gyflwynwyd i'r Undeb Ewropeaidd yn cynnwys 44 o ymgeiswyr am Ardal Cadwraeth Arbennig sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

Yn dilyn cyfarfodydd yr UE ym mis Medi a mis Tachwedd, barnwyd bod rhestr y DG o ymgeiswyr am ACA yn rhoi sylw annigonol i rai cynefinoedd a rhywogaethau, a gofynnwyd i'r DG gyflwyno ymgeiswyr eraill a oedd dan fygythiad o orfod wynebu achosion torri'r rheolau. Felly, gwahoddodd y Llywodraeth asiantaethau cadwraeth yn y pedair gwlad i awgrymu ymgeiswyr ychwanegol fel mater o frys. Adolygodd CCGC yr holl wybodaeth a oedd ar gael o ganlyniad i waith ymchwil ac arolygon er mwyn medru cyflwyno rhagor o argymhellion i'r Llywodraeth ar gyfer helpu i ychwanegu at y rhestr o safleoedd yn y DG. Mae'r gwaith o wneud hyn yn un sylweddol a chaiff gefnogaeth ariannol ychwanegol gan y Cynulliad Cenedlaethol am gyfnod o ddwy flynedd. Arnodwyd ymgeiwsyr am ACA ychwanegol yng Nghymru a dechreuodd yr ymgynghoriadau ym mis Gorffennaf 2000. Bydd gan dynodiad yrArdaloedd fel SoDdGA ei broses ymgynghori ei hun ac yna bydd angen monitro a rheoli'r ardaloedd er mwyn gwneud yn sicr eu bod yn cyflawni gofynion yr UE. Bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn. Yng nghwrs y flwyddyn daeth yn fwyfwy amlwg bod yr UE yn gosod pwysigrwydd sylweddol ar gael yr Aelod-wladwriaethau i gyflawni eu rhwymedigaethau i







Dolffin - yACA Bae Ceredigion

Llyfrothen, Pen Llŷn a'r Sarnau

Safle ACDd Friog

Natura 2000 ac, yn arbennig, fod yna ryngberthynas bendant rhwng Cyllid Adeileddol Ewropeaidd a Rhaglen Datblygiad Gwledig a rhwymedigaethau'r Aelod-wladwriaethau o dan Natura 2000.obligations, and in particular that there was a clear interrelationship between the European Structural Funds and Rural Development Programme and Member States' obligations under Natura 2000.

## Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan Gymru 64 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol dynodedig yn ogystal â Gwarchodfa Natur Forol yn Sgomer. Caiff y mwyafrif ohonynt eu rheoli'n uniongyrchol gan Wardeiniaid CCGC a Gweithwyr Stadau gyda chymorth gwerthfawr ein Wardeiniaid Gwirfoddol, ond rheolir rhai mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RSPB, yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a'r Woodland Trust. Mae llawer o'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn bwysig hefyd yn y cyd-destun Ewropeaidd oherwydd eu dynodi fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) i Adar ac fel ymgeiswyr am ACA.

Mae gan bob un o'r GNC gynllun rheoli manwl ar gyfer y safle ac maent yn wynebu ymchwiliad amgylcheddol rheolaidd. Yn 1999, gwnaed 23 o ymchwiliadau felly.

Dyma enghreifftiau o'r math o waith rheoli a wneir ar y GNC:

- rheoli prysgwydd yn GNC Rhos Goch ym Mhowys sydd eisoes yn dangos twf newydd o fwsogl migwyn;
- yn yr un modd yn GNC Cors Caron yng Ngheredigion, cafodd 100 acer o frwyn trwchus eu torri, eu belio a'u defnyddio gan ffermwyr lleol i godi lefel y dŵr ar y safle. Mae hyn eisoes wedi golygu bod yno nifer fwy o giachod a chorhwyaid pan fydd yr ardal dan ddŵr;
- Yn GNC Stackpole, gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gwnaed astudiaethau a chafwyd rhaglen o dorri a chlirio planhigion tanddwr i sicrhau dyfodol Llynnoedd Bosheston fel cynefinoedd bas o ddŵr croyw.


Ar 24 Mehefin 1999, agorodd Tywysog Cymru Warchodfa Natur Genedlaethol Carmel ym Mhentergwenlais, Sir Gaerfyrddin. Mae'r tirfeddianwyr, Tarmac, yn rheolir warchodfa ac maent wedi darparu rhwydwaith eang o lwybrau mynediad.  Mae'r warchodfa'n mesur 50 hectar ond mae hefyd yn rhan o ardal fwy sy'n ACAy Cernydd Carmel. Mae'n bwysig am ei choed ynn, ei rhostiroedd, ei chyforgorsydd ai glaswelltiroedd sydd heb eu gwella Mae ynddi hefyd yr unig lyn byrhoedlog (hafn-lyn) sy'n bodoli ym Mhrydain. Mae CCGC yn gweithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth a Choed Cymru i ddwyn y coetir yn ôl dan reolaeth ymarferol a chynaliadwy. Mae rheolaeth y llecynnau o laswelltir yn cael ei chyfeirio at gynyddu'r nifer ar amrywiaeth o blanhigion sydd yno. Cyfrannodd Asiantaeth yr Amgylchedd at y gwaith drwy ddarparu cyfleusterau monitro ar gyfer rheolaeth hydrolegol y ddyfrhaen. Yn ogystal â helpu i ddiogelu'r bywyd gwyllt, mae cael ei datgan yn warchodfa wedi golygu bod yr ardal yn cael ei hagor ar gyfer llawer o bobl leol a all yn awr gael mynediad i'r rhan bwysig hon o Ddyffryn Gwenlais.

Ychwanegwyd mwy o dir at GNC Berwyn, gan gynnwys Stâd Efyrnwy sydd ym meddiant Severn Trent Water CCC ac a reolir gan yr RSPB. Cyhoeddwyd dwy GNC newydd, Rhosydd Hafod Elwy, sy'n rhan o Fynydd Hiraethog, a Choed Carmel yn Sir Gaerfyrddin.

Fel ein cyfraniad at Ymgyrch Hiraeth 2000 Bwrdd Croeso Cymru, gwnaed trefniadau yn 2000 i helaethu'r rhaglen reolaidd o deithiau cerdded ar GNC a drefnwyd gan Wardeiniaid CCGC. Lansiwyd y fenter Natur ar ei Gorau ym mis Mawrth 2000 a chynigiai hwnnw dros 170 o deithiau cerdded hyd at ddiwedd Medi. Trefnwyd sesiynau hyfforddiant ar gyfer staff Canolfannau Gwybodaeth Twristiaid er mwyn iddynt fedru rhoi cyngor am y teithiau, a chysylltwyd â Chwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol a allai ddarparu cyfleusterau llety ar gyfer ymwelwyr.

Gwnaed paratoadau hefyd i wella cyfleusterau dehongli mewn nifer o'r GNC. Bydd cais yn cael ei wneud am Gyllid Adeileddol yr UE i gefnogi'r gwelliannau hyn a fydd, gobeithio, yn datblygu potensial i ymwelwyr mewn modd cynaliadwy yn yr GNC yma ar y cyd â diwydiant twristiaeth yr ardal.

# Cynnydd mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth



Glesyn serennog

Mewn ymateb i Gytundeb Bioamrywiaeth yn Uwchgynhadledd y Ddaear yn Rio de Janeiro (1992), dechreuodd Llywodraeth y DG fenter bwysig i noddi datblygiad Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (UKBAP) ar gyfer ein hetifeddiaeth naturiol o gynefinoedd a rhywogaethau. Yng Nghymru, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol Grŵp gyda chadeirydd arno sy'n goruchwylio gweithgaredd cyffredinol a chyflawniad y cynlluniau. Rhydd CCGC y gefnogaeth weinyddol i'r Grŵp.

Erbyn diwedd 1999, roedd 37 o Gynlluniau Gweithredu er gwarchod Cynefinoedd a 185 o Gynlluniau Gweithredu er gwarchod Rhywogaethau wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau a geid yng Nghymru. Cynhwysai'r rhain dargedau ar gyfer cadwraeth, adfer a helaethu cynefinoedd a rhywogaethau unigol, ynghyd â chyfres o weithrediadau a oedd yn ofynnol ar gyfer cwrdd ag amcanion y cynlluniau. Aseinir gweithgareddau i amrywiol fudiadau, gan gynnwys asiantaethau statudol, llywodraeth ganolog a lleol a mudiadau nad oes a wnelont â'r Llywodraeth. Anogir partneriaethau i ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau unigol.

Mae'n anochel bod llawer o waith UKBAP yng Nghymru wedi dod i ran CCGC, ond mae'r adnoddau hyd yma wedi bod yn annigonol i gwrdd â'r ystod eang o weithredoedd penodedig. Mae CCGC wedi arnodi 50% o'r prif gynlluniau y disgwylir iddo gyfrannu atynt ac mae'n gohirio gweithredu ar y gweddill nes bydd mwy o adnoddau ar gael. Disgwylir y bydd gan yr agwedd hon ar y gwaith broffil uwch o lawer wrth inni ddynesu at 10fed pen blwydd Uwchgynhadledd y Ddaear yn Rio yn 2002.

Fodd bynnag, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i gael grwpiau o awdurdodau lleol a cyrff anstatudol i baratoi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl). Cyhoeddodd CCGC yn ystod y flwyddyn ei fod yn fodlon gofalu bod 30,000 ar gael i bob awdurdod lleol dros y ddwy flynedd nesaf ar gyfer hwyluso'r paratoi gyda phartneriaid CGBLl. Mae CCGC yn darparu gwybodaeth hefyd am gynefinoedd a rhywogaethau i'r grwpiau lleol.

Mae gan CCGC gyfres o gynlluniau ar gyfer gweithredu'r CGC a CGRh ei hun, gan gwmpasu gwaith ymchwil, diogelua rheoli cynefinoedd a rhywogaethau, a bydd ein rhaglenni SoDdGA a Thir Gofal yn helpu i gyraedd targedau CGB.

# Gwella ein gwybodaeth am yr amgylchedd naturiol



Gwely cregyn dilyw

Roedd ein gwariant ar ymchwil a chefnogaeth wyddonol yn is o 14% ar y flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu pwysau ar gyllidebau eraill. Gwnaethom gymaint o impact ag y gallem gyda'r adnoddau a oedd ar gael drwy ymuno â phartneriaid i wneud gwaith ymchwil lle roedd hynny'n bosibl. O fewn y gyllideb yn gyffredinol gwnaed penderfyniad ymwybodol i gynyddu'r maint o waith ymchwil a chefnogaeth a wneid ar yr amgylchedd morol ac arfordirol.

## Pwysigrwydd cynyddol gwaith arfordirol a morol CCGC

Mae CCGC wedi cydnabod ers rhai blynyddoedd fod angen dod o hyd i fwy o adnoddau er mwyn iddo gyflawni ei gyfrifoldebau am ein harfordir a'n dyfroedd alldraeth. Ar ddiwedd proses Natura 2000 gallai o leiaf 60% o'n harfordir a'n dyfroedd alldraeth gael eu dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Gyda'r adnoddau a oedd ar gael rydym, felly, wedi ceisio cynyddu ein staff a'u harbenigedd, gan roi cyfran uwch o gyllid ymchwil i'r maes hwn. Mae canlyniadau trawiadol yn awr yn dechrau ymddangos, ond yn y blynyddoedd sydd i ddod bydd angen inni wneud hyd yn oed fwy o ymdrechion os ydym i gyflawni ein rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol yn effeithiol.

## Yr Arolwg Rhynglanwol

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd y Tîm Arolwg Rhynglanwol wedi gorffen gwneud arolwg a mapio 48% o arfordir Cymru. Roedd y gwaith ar ymgeisydd am ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, Bae Ceredigion ac Ynysoedd Sir Benfro wedi cael ei orffen i gyd, yn ogystal â rhan fawr o ymgeisydd ACA Morfa Heli ac Chilfach Burry. Mae gwaith wedi cael ei ddechrau ar safleoedd yn Afon Menai ac o gwmpas Ynys Môn. Mae'r mapiau a data'r arolwg a gasglwyd drwy'r gwaith o wneud arolwg wedi darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer cynlluniau rheoli ACA Morol. Fe'u defnyddiwyd hefyd i gynhyrchu papurau dynodi

SoDdGA. Dynodwyd un SoDdGA rhynglanwol, Tonfannau i'r Friog, yn 1999, ac mae yna amryw o rai eraill i gael eu dynodi yn 2000.

## Monitro a rheoli ymgeiswyr am ACA morol


Cyflawnwyd cynllun pwysig o dreialon monitro yn yACA Pen Llŷn a'r Sarnau, ac fe'i lluniwyd i roi prawf ar y dulliau o fonitro'r amrywiaeth a'r ystod o rywogaethau yn y riffiau a'r aberoedd. Ymhlith y technegau a brofwyd roedd fideo tanddwr, arsylliad uniongyrchol gan blymwyr ac arolygon acwsteg. Bydd yr argymhellion a ddeilliodd o'r adroddiad yn ffurfio rhan o'r canllawiau ar gyfer monitro ACA morol ledled y DG, sydd i gael eu cynhyrchu gan Brosiect *LIFE* ACA Morol y DG. Mae'r astudiaethau eraill a wnaed ac a fydd yn help yn y broses o reoli ein ymgeiswyr am ACA morol yn cynnwys casglu cronfa ddata ar ddolffiniaid trwyn-potel ym Mae Ceredigion, astudiaeth o'r prosesau arfordirol o fewn Pen Llŷn a'r Sarnau ac astudiaeth o impact tynnu graean o'r ymgeiswyr am ACA morol.

Mae cynlluniau rheoli ymgeiswyr am ACA yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r awdurdodau perthnasol, y grwpiau o ddefnyddwyr a'r rhai sydd â diddordeb. Cyhoeddwyd drafft ymgynghorol o'r cynllun rheoli a chynhaliwyd gweithdai cyhoeddus mewn cysylltiad ag ymgeiswyr am ACA ym Mae Ceredigion. Cynhyrchwyd canllawiau ynghylch rheoli'r gwaith o dynnu graean allan o ymgeiswyr am ACA morol, ac yn yr ymgeiswyr am ACA ym Mhen Llŷn a'r Sarnau cytunwyd gyda Phwyllgor Pysgodfeydd Môr y Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru i gau un ardal i bysgota cregyn bylchog am resymau cadwraeth.

Cwblhawyd dwy flynedd o astudiaeth o lagwnau heli, gan wneud arolwg o 14 o safleoedd a rhoi argymhellion i wella'r rheolaeth arnynt. Cwblhawyd arolwg o forfa aber Afon Hafren hefyd a gwelwyd bod yno amrywiaeth fawr o rywogaethau sy'n genedlaethol brin.
Parhawyd i wneud gwaith a oedd yn gysylltiedig â chanlyniadau trychineb y Sea Empress gan ddal ymlaen ar yr ail flwyddyn o astudiaeth dair blynedd o'r môr-hwyaid duon a'u bwyd ym Mae Caerfyrddin. Cyflwynwyd canlyniadau cyfrifiadau ar y tir ac arolygon o'r awyr am adar yn ogystal a dadansoddiadau interim o infertebrata dyfnforol er mwyn mapio a gwneud astudiaeth o'u poblogaeth. Buom hefyd yn dal i weithio ar ein rhaglen o gofnodi rhywogaethau morol, a gynhwysai bysgod morol ac aberol, y morfilod a ganfuwyd, a'r mamaliaid morol a'r crwbanod môr a olchwyd i'r lan. Profodd yr ymchwil ar lamhidyddion fod yn Sir Benfro ardal bwrw lloi. Gwnaed arolwg o'r alga prin *Anotrichium barbatum* (un o rywogaethau'r Cynllun Gweithredu) ym Mae Tremadog, a gwnaed arolygon o algâu môr yng Ngwarchodfa Natur Forol Sgomer hefyd er mwyn rhoi prawf ar y targedau a'r dulliau monitro ar gyfer cymynedau o algâu.

## Prosiect morluniau

Fel rhan o'r dull rhagweithiol ar gyfer canfod y lleoliad mwyaf addas ar gyfer cynhyrchu ynni amgen, yn arbennig pŵer gwynt, lansiodd CCGC y prosiect Morluniau ar gyfer datblygu a rhoi prawf ar ffordd o ddisgrifio ac asesu morluniau a beth fydd effaith datblygiadau arnynt. Cyllidir y gwaith yn rhannol dan gynllun INTERREG. Mae mapiau'n cael eu cynhyrchu i ddangos yr ardal o Gymru lle mae'r môr yn weladwy a'r ardaloedd o'r môr sy'n fwyaf gweladwy o'r tir, yn ogystal â dadansoddiad o'r rhannau o'r arfordir sydd â'r golygfeydd ehangaf o'r môr. Gobeithia CCGC y bydd y gwaith yn cael ei ddefnyddio i arwain datblygwyr tuag at yr ardaloedd alltraeth lle bydd y datblygiadau'n gwneud yr impact lleiaf ar y morlun.


Monitro gyda fideo

## Cynefinoedd ar y tir ac mewn dŵr croyw

Roedd llawer o'n gwaith ymchwil yn 1999 yn gysylltiedig â'r anghenion a nodwyd ym menter Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DG. Roedd nifer o'r astudiaethau o gynefinoedd yn ymwneud â'r angen i gael data am lystyfiant modern ledled tirweddau Cymru, a storio a phrosesu'r wybodaeth mewn cronfeydd data addasedig i'r pwrpas; canolbwyntiai prosiectau eraill ar swyddogaeth a phroses ecosystemau i fod yn sail i reolaeth cadwraeth. Lluniwyd prosiectau ar gyfer amrediad o rywogaethau dethol - yn bennaf, er mwyn cael data cyfrifiad poblogaethau ac, yn aml, i gael mewnwelediad i ofynion cynefinoedd, fel bod modd bwydo'r canfyddiadau'n uniongyrchol i raglenni cadwraeth ymarferol; cynhwyswyd elfen enetig mewn rhai achosion.

## Astudiaethau cynefinoedd

Roedd prosiectau arolwg o gynefinoedd tirol yn cwmpasu rhosydd iseldirol, gwrychod, coetiroedd, ucheldiroedd a morfeydd. Yn gyffredinol, cofnodwyd data llystyfiant am y cyfansoddiad blodeuol a'r cyflwr strwythurol yn y cymynedau o blanhigion a geid yno, yn ogystal â'r cyd-destun amgylcheddol. Defnyddiwyd y canfyddiadau ar gyfer gwerthuso safleoedd (yn arbennig SoDdGA ac ymgeiswyr am ACA), ac ar gyfer datblygu rhaglenni i adfer cynefinoedd. Datblygwyd cronfeydd data ymhellach ar gyfer glaswelltiroedd iseldirol, coetiroedd a rhostiroedd, a buom yn cyfrannu at ddatblygiad cronfeydd data'r DG ar ucheldiroedd a dyfroedd croyw.

Gwnaed cynnydd da gydag astudiaeth o ddiraddiant gorgorsydd a chynnydd glaswellt y gweunydd, *Molinia*, ar safleoedd yng nghanolbarth a deheubarth Cymru; mae'r gwaith hwn yn cael ei ymestyn i ogledd Cymru lle mae rhagor o gorsydd sydd bron yn naturiol i'w gweld o hyd. Buwyd yn gweithio ar gamau dechreuol dau brosiect i ddatblygu gwaith adfer mawnogydd ar gyrion GNG Cors Fochno ac yn fwy cyffredinol ar gorsydd ledled Cymru. Gwnaed archwiliadau hydrolegol yn GNG Coed y Cerrig ac GNG Cwm Cadlan; mae a wnelo'r gwaith ar yr olaf â chynlluniau i sychu chwarel galch gyfagos.

Roedd y prosiectau adfer cynefinoedd yn cynnwys hefyd barhad o astudiaeth i adfer llystyfiant *Molinia-Juncus* mewn glaswelltir a gafodd driniaeth i'w wella yn GNG Rhos Llawr-cwrt a phrosiect a gydgyllidir gan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur ar gyfer datblygu llawlyfr o ddulliau adfer glaswelltiroedd sych a gwlyb.

## Astudiaethau rhywogaethau


Cwmpaswyd ystod eang o grwpiau tacsonomig mewn astudiaethau cyfrifiad poblogaethau, geneteg ac amgylchedd rhywogaethau.

Gwnaed tri o brosiectau mamalaidd ar ecoleg ystlumod er mwyn darparu data ar y niferoedd a geir o ystlumod trwyn pedol lleiaf ac er mwyn asesu pwysigrwydd gwrychoedd a chynefinoedd glannau afonydd ar gyfer ystlumod. Gwnaed astudiaeth fodelu o'r wiwer goch, drwy wneud Dadansoddiad Hyfywdra Poblogaethau, a gwnaed cyfrifiad blynyddol o forloi bach (llwydion) ar Warchodfa Natur Forol Skomer.

Roedd yr astudiaethau a wnaed ar yr adar yn golygu casglu data demograffig hir-dymor am wylogod a llursod ar Skomer, astudiaeth tracio grugieir duon gyda radio (fel dilyniant i ganfyddiad blaenorol fod goroesiad y cywion yn gymharol uchel ar un o rosydd Cymru lle nad oedd ciperiaid) a geneteg poblogaethau o frain coesgoch yng Nghymru. Cydgyllidwyd arolwg helaeth iawn gennym hefyd am fwyeilch y mynydd sydd i'w gweld yn prinhau'n gyson.

Gwnaed astudiaeth fanwl o ecoleg atgynhyrchu lampreiod ar Afon Wysg. Cwmpasodd prosiectau ymlusgolegol ddau o gyflwyniadau uchel eu proffil: llyffantod y twyni yn Nahalacre lle buont yn bridio'n llwyddiannus am y tro cyntaf ers y 1950au, a madfall y tywod ar GNG Morfa Harlech lle mae'r boblogaeth a roed yn yr ardal wedi dal i gynhyrchu epil.

Roedd astudiaethau infertebrata a wnaed yn rhai a oedd bron yn gyfan gwbl ar ddosbarthiadau blaenoriaethol iawn yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth; yn bennaf, roedd astudiaethau o'r poblogaethau lleol yn gysylltiedig iawn ag arsylwadau ar berthnasau cynefinoedd, fel y





Cardwenynen *Bombus sylvarum*

Y falwen droellog - *V. moulinsiana*

byddai modd cynnig argymhellion ar reolaeth. Ymysg y rhywogaethau a astudiwyd roedd y falwen droellog *Vertigo angustior* (GNG Whiteford), *V. geyeri* (ffeniau Ynys Môn) a *V. moulinsiana* (GNG Cors Geirch), y chwilen brin *Panagaeus cruxmajor* (Penbre), *morgrugyn du'r gors* (GNG Cors Goch Llanllwch) a thri o löynod byw, *britheg brown* (Mynydd y Gaer, Morgannwg), britheg y gors (Glyn Cynon) a'r glesyn serrenog (Meysydd Tanio Castell Martin). Cafodd astudiaeth o gynefinoedd a oedd yn rhoi sylw i infertebrata arbenigol a phrin ei gwneud ar waddodion ger 13 o afonydd yng Nghymru; cofnodwyd colledion difrifol mewn cynefinoedd ac mae angen gweithgaredd cadwraethol yno ar frys.


Mae'r dosbarthiadau o blanhigion a astudiwyd yn cynnwys amryw o rywogaethau sy'n cael blaenoriaeth uchel iawn yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth – e.e., *Cotoneaster* y Gogarth (geneteg tacsonomig) a crwynlys Cymreig (arbrawf pori). Buom yn cyfrannu hefyd tuag at gynnal cronfa ddata am y planhigion blodeuol a'r rhedyn prinaf yn y DG. Gwnaed amryw o brosiectau CGB ar blanhigion is, a gynhwysai arolwg o'r mwsog *Hamatocaulis vernicosus* sydd wedi cyfranu at asesiad ACA ychwanegol yng Nghymru.
Cynhaliwyd tri o brosiectau a gydgyllidwyd i astudio effaith llygredd. Ar sail astudiaeth tymor canolig o'r mewnbynnau Nitrogen a aeth i mewn i'r rhostiroedd, gwelwyd bod effeithiau rheoli (pori) yn bwysig odiaeth, heblaw ar y lefel uchaf o driniaeth Nitrogen. Ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd, gwnaed archwiliadau rhagarweiniol o effeithiau dipiau defaid, y gobeithir y byddant yn arwain at gyngor gwell ynghylch dulliau diogel o gael gwared â dip defaid. Cymerwyd cam cyntaf prosiect sy'n ymwneud ag asiantaethau'r llywodraeth a rhai nad oedd a wnelont â'r llywodraeth i fodelu'r effaith a wna'r newid mewn hinsawdd ar gynefinoedd a rhywogaethau dethol (yn 2020, 2050 a 2080).

## Adolygiad pysgodfeydd dŵr croyw ac eogiaid

Ym mis Gorffennaf 1998, sefydlodd Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru grŵp annibynnol er mwyn adolygu polisi a deddfwriaeth a gymhwysir, neu sy'n berthnasol, i bysgodfeydd d^wr croyw ac eogiaid, ac er mwyn gwneud argymelliadau. Cadeirydd y grŵp oedd Aelod o'r Cyngor, yr Athro Lynda Warren. Cyflwynodd CCGC, mewn cydweithrediad ag English Nature, wyth, i gyd, o femoranda i'r Grŵp. Roeddent yn ymwneud ag ystod amrywiol o faterion pysgodfeydd, gan gynnwys cyflwyno a stocio pysgod, rheoli cynefinoedd, ysglyfaethu, hamddena, trefniadau a chyllid sefydliadol. Ar wahân i hynny, rhoddodd CCGC dystiolaeth lafar mewn tri sesiwn o dystiolaeth gyhoeddus.

Ym mis Chwefror 2000, cyhoeddodd MAFF a'r Cynulliad Cenedlaethol adroddiad y Grŵp Adolygu a gynhwysai 195 o argymhellion. Mae gan yr argymhellion oblygiadau ecolegol a rheolaethol a all fod yn amrywiol iawn. Dangosodd y grŵp fod angen adolygiad sylweddol ar y Ddeddf Pysgodfeydd Dŵr Croyw ac Eogiaid yng ngoleuni ymrwymiadau diweddar y llywodraeth i ddiogelu a gwella ein bioamrywiaeth naturiol nodweddiadol a hybu datblygiad cynaliadwy. Ac eithrio rhai agweddau, croesawodd CCGC y brîff am gadwraeth ehangach a argymhellwyd ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd, ac roedd yn edifar gennym mai ychydig o argymhellion a wnaed i gefnogi neu i ddiffinio rôl yr asiantaethau cadwraeth o safbwynt cadwraeth pysgod.

# Cynigion i wella mynediad i gefn gwlad



Roedd cynigion y Llywodraeth i gael mynediad i ardaloedd agored cefn gwlad yn y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn adlewyrchu'r cyngor a roesom ni mewn ymateb i'w ymgynghoriad ar Fynediad i Ardaloedd Agored Cefn Gwlad yn Lloegr a Chymru a gyhoeddwyd yn 1998. Yn ôl ei maint a'i phoblogaeth, bydd gan Gymru swm anghyfartal o dir â mynediad iddo (fe'i amcangyfrifir yn swm hyd at 450,000 hectar) o'i chymharu â Lloegr. Rydym wedi argymell yr angen i fod mor wrthrychol ac y bo modd wrth ddisgrifio ardaloedd agored cefn gwlad y mae'r Llywodraeth yn dymuno caniatáu hawliau mynediad cyhoeddus iddynt. Roeddem o blaid mapio'r ardaloedd dan sylw drwy seilio ein methodoleg i wneud hynny ar yr arolygon cynhwysfawr o lystyfiant lled-naturiol a gwblhawyd yng nghanol y 1990au. Rhoesom ein methodoleg ar brawf mewn 4 ardal beilot yng Nghymru yn ystod haf 1999, ac o ganlyniad iddynt roeddem yn medru cynghori Adran yr Amgylchedd Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a'r Cynulliad Cenedlaethol am y raddfa o ddarpariaethau yr oedd rhaid eu gwneud ar gyfer paratoi drafft a mapiau dros dro ac ar gyfer y broses ymgynghori.

Rydym wedi rhoi llawer o bwyslais ar ymgynghori gyda'r rhai sy'n berchnogion ac yn rheolwyr ar y tir sy'n debygol o fod yn agored i'r cyhoedd a chyda'r rhai a gaiff hawliau i ddefnyddio'r ardaloedd hynny. Ystyriwn fod y profiad o reoli ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ein hunain – gan gynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf sensitif ar yr ucheldir yng Nghymru – yn ein rhoi mewn sefyllfa ardderchog i sylweddoli'r problemau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hawliau mynediad newydd ac i gynnig cyngor yn eu cylch.

Gofynnwyd inni hefyd gynghori'r Llywodraeth ynghylch yr achos dros ymestyn hawliau tramwy cyhoeddus i goedwigoedd, y glannau a'r arfordir. Daethom i'r casgliad ein bod ar hyn o bryd yn ystyried y gellid gwneud mwy i annog a gwella mynediad i'r ardaloedd hynny drwy ddulliau gwirfoddol yn hytrach na chaniatáu hawl statudol i gael mynediad cyhoeddus. Cyhoeddwyd ein casgliadau gennym yn annibynnol ond buom hefyd yn cydweithio – gyda'r Countryside Agency, y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr

Amgylchedd ac English Nature – ar roi adroddiad ar y cyd i'r Llywodraeth am yr opsiynau i newid, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 1999.

Mae Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy'n rhoi amryw o ddyletswyddau statudol newydd ger bron CCGC mewn cysylltiad â mynediad i ardaloedd agored. Rydym wedi amcangyfrif y bydd angen oddeutu £2 miliwn ar gyfer y gwaith o gynhyrchu mapiau drafft o'r ardaloedd agored ac ar gyfer ymgynghori â'r rhai sydd â diddordeb yn yr ardaloedd hynny. Y gwaith hwn yw'r rhan fwyaf costus ac sy'n cymryd y mwyaf o amser i roi argymhellion mynediad y Llywodraeth ar waith. Credwn y cymer 2 flwynedd i'w gwblhau. Cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei roi ar gyfer 2000 er mwyn medru dechrau ar y gwaith yma.

Mae'r dyletswyddau cyson sydd gennym ar hyn o bryd yn cynnwys monitro'r effeithiau a wna'r mynediad ar yr amgylchedd a rhoi'r trefniadau yn eu lle ar gyfer cynghori a monitro cau a chyfyngu mynediad. Bydd angen paratoi cyngor hefyd i dirfeddianwyr, rheolwyr a defnyddwyr tir lle ceir mynediad iddo, er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus am yr hawliau a'r cyfrifoldebau newydd sy'n gysylltiedig â hwy. Ym mis Medi trefnodd CCGC seminar cenedlaethol yng Ngregynog i gael sylwadau ar ymgynghoriad y Llywodraeth, Gwella Hawliau Tramwy yn Lloegr a Chymru. Wedyn ym mis Hydref cyhoeddodd y Cyngor ei gynghorion i'r Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl iddo dderbyn sylwadau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol. Mae'n dda gan y Cyngor fod amryw o'i argymhellion i atgyfnerthu a datblygu'r system llwybrau cyhoeddus wedi cael eu cynnwys yn y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Rydym yn falch ein bod wedi medru gweithredu'n gyflym i fynd ymlaen â llawer o'r tasgau a roed inni gan y Llywodraeth i gyflawni gwelliannau i fynediad i gefn gwlad. Cawsom gymorth mawr yn hyn o beth drwy gefnogaeth a chydweithrediad tirfeddianwyr a defnyddwyr mynediad ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol, ac rydym yn ddiolchgar iddynt am hynny. Edrychwn ymlaen at gael gweithio'n agos gyda hwy yn y blynyddoedd sydd i ddod fel y gellir cynyddu a chynnal y buddion y credwn y bydd modd iddynt ddeillio o gael gwell mynediad i gefn gwlad os bydd wedi ei reoli mewn modd cyfrifol.



Mynediad i'r anabl ar fferm Tir Cymen

## Fforwm Mynediad Cymru

Wrth gyhoeddi ei Fframwaith Gweithredu ar gyfer Gwella Mynediad i Gefn Gwlad yn Lloegr a Chymru ym mis Mawrth 1999, roedd y Llywodraeth yn cydnabod y cyfraniad pwysig a roddwyd gan Fforwm Mynediad Cymru yn y blynyddoedd diweddar o ran datblygu deialog a phartneriaeth rhwng y mudiadau yng Nghymru a goleddai ddiddordeb mewn mynediad i gefn gwlad.  Fel y gofynnwyd inni, rydym wedi datblygu gwaith y Fforwm hwn – a elwir yn awr yn Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru – er mwyn inni roi sylw i'r amcanion a roed yn nogfen y Fframwaith.  Ym mis Mawrth eleni, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Fforwm hwn a sefydlwyd o'r newydd.

## Cymhorthdal grant i bartneriaid ar gyfer gwella mynediad

Fel dilyniant i seminar a gynhaliwyd yn gynharach eleni, gwahoddodd CCGC farnau ym Mehefin am y papur ymgynghori ynghylch gwella cysylltiadau rhwng cludiant cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus. Roedd y canlyniad yn un positif gyda'i gefnogaeth eang i'r polisïau i wella hygyrchedd at gefn gwlad ac arfordiroedd yng Nghymru.  O ganlyniad, penderfynodd y Cyngor y byddai'n caniatáu cymhorthdal grant a oedd ar gyfartaledd dros 600k y flwyddyn dros y 3 blynedd nesaf i gefnogi'r ymdrechion hyn.

Ymunodd CCGC a'r British Heart Foundation â'i gilydd i ddatblygu cynllun a anelai at gael mwy o bobl i gerdded yn eu cymunedau lleol ledled Cymru.  Gan fod amcangyfrif o 70% o'r boblogaeth heb fod yn ymarfer digon i fod o fudd i'w hiechyd, lluniwyd y prosiect *Dilyn llwybr iechyd* ar gyfer helpu miloedd o'r bobl hyn i ymarfer mwy a mwynhau cefn gwlad Cymru ar yr un pryd.  Bydd llwybrau deniadol a phoblogaidd yn cael eu darparu heb fod nepell o'u cartrefi er mwyn annog pobl i drefnu bod cerdded yn rhan o'u bywyd pob dydd.  Bydd y cynllun yma – a lansiwyd yn 2000 ac sy'n cael cefnogaeth cymhorthdal grant CCGC – yn darparu gweithgareddau a hyfforddiant hyrwyddol i wirfoddolwyr sy'n dymuno bod yn arweinyddion ar y teithiau iechyd hyn.  Dylai gyfrannu at strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ei hun ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles, sef Gwell Iechyd Gwell Cymru – ymgynghoriad a lansiwyd ddiwedd Mawrth 2000.

## Cymdeithas y Cerddwyr

Daliodd CCGC i ddarparu cefnogaeth i'r cynllun poblogaidd iawn, Lonc a Chlonc/Walk and Talk, sy'n rhoi cyfleoedd i bobl gydgerdded ar deithiau a ddewiswyd yn ofalus er mwyn annog y rhai a fyddai, fel arall, heb yr hyder i fynd ar eu pennau eu hunain.  Mae'r teithiau cerdded hyn yn dod â buddion cymdeithasol a buddion i iechyd, yn ogystal â datblygu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o wychder ein cefn gwlad.  Yn ystod y flwyddyn, cymerodd oddeutu 4,300 o bobl ran mewn 257 o deithiau cerdded a gafodd eu trefnu.

Rhoesom gefnogaeth cymhorthdal grant hefyd i Gymdeithas Cerddwyr Cymru i helpu gyda chyhoeddi taflen, Llwybrau i'r Werin/Paths for People – a dargedwyd at gynghorwyr trefol a chymunedol – yn amlinellu'r gyfraith sy'n berthnasol i lwybrau cyhoeddus ac yn rhestru 10 o bwyntiau gweithredu i helpu i ddiogelu'r llwybrau hyn a hybu'r defnydd a wneir ohonynt.

# Datblygiad cynaliadwy


Gwastadeddau Gwent

Gwnaethom gyfraniad i ddatblygiad cynaliadwy mewn nifer o ffyrdd.  Ar lefel ymarferol, mae'r cyngor a'r sylwadau a roir gan ein Swyddfeydd Rhanbarthol i Awdurdodau Cynllunio a datblygwyr ynghylch ceisiadau cynllunio yn helpu i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu gwneud mewn modd nad ydynt yn gwneud difrod i'n hetifeddiaeth naturiol, y bywyd gwyllt a'r tirwedd fel ei gilydd.  Wrth gynnig cyngor, bydd CCGC yn edrych am ffyrdd y gallai'r datblygiadau roi budd gwirioneddol i gadwraeth natur ac i'r tirwedd.

Er mai ein rôl flaenaf ni yw diogelu bywyd gwyllt a'r tirwedd, nid yw hynny'n awtomatig yn golygu ein bod yn gwrthwynebu datblygiad neu gynnydd.  Mae CCGC yn ymroddedig i helpu Cymru i ddatblygu mewn modd cynaliadwy.  Yn 1999/00 ymgynghorwyd â ni'n ffurfiol, a rhoesom ninnau gyngor ar dros 1200 o geisiadau cynllunio, ond drwy weithio gyda datblygwyr a'n partneriaid, dim ond mewn 15 o'r achosion, sydd ychydig dros 1%, y bu angen anghytuno.  Mae'n rhaid pwysleisio nad yw ein rôl mewn perthynas â'r rhain yn ddim mwy na chynnig cyngor sy'n seiliedig ar ein cyfrifoldebau statudol am gadwraeth natur a'r tirwedd.  Yr Awdurdodau Cynllunio (yr Awdurdodau Lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol) sydd i bwyso a mesur y cyngor a roir, ynghyd â'r ystyriaethau eraill y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddynt, cyn gwneud penderfyniad ar y ceisiadau. Roedd cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau yr ymatebodd ein staff lleol iddynt bron yn 5000.

I roi enghraifft benodol, mae Casnewydd yn wynebu SoDdGA Aber Afon Hafren, Ramsar,  AGA, ACA, a rhennir y dref gan ymgeisydd am ACA yr Afon Wysg. Mae hyn yn creu'r angen am gryn gydweithrediad, yn arbennig ymgynghoriad gwaith achos lle ceid goblygiadau cyfreithiau Ewrop, ar lawer o'r datblygiadau a fwriedid. Enghraifft dda o hyn oedd y cynllun i osod piblinell 18 km o hyd gan Hyder (Dŵr Cymru) i gario dŵr gwastraff rhwng Cas-gwent a Chasnewydd.  Mae'r biblinell yn croesi'r yACA ar yr Afon Gwy ddwywaith, pedair o SoDdGAau Gwastadeddau Gwent, ac mae wrth ochr SoDdGA Aber yr Afon Hafren, Ramsar AGA, ACA dan ystyriaeth. Gyda'n cydweithrediad llwyr ni, cafodd y biblinell ei chyfeirio'n benodol drwy Warchodfa Gwlyptir Gwastadeddau Gwent a reolir gan CCGC, er mwyn lleihau ei hefaith ar bentrefi Trefonnen ac Allteuryn. Golygodd yr achos hwn gael llawer o gydweithrediad

rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd, CCGC a Hyder, er mwyn lleihau'r amrywiol effeithiau niweidiol a allai fod ar yr amgylchedd, a chaniatáu hefyd ar gyfer gwaith i ddiogelu'r arfordir yn y dyfodol. Mae Hyder wedi cytuno hefyd i roi cyfraniad sylweddol i ddarparu trydydd cyflenwad pwysig iawn o ddŵr i warchodfa'r gwlyptir.

Mewn rhai achosion, byddwn yn cymryd rhan reolaidd mewn cyfarfodydd cydweithredol neu ymweliadau â safleoedd; mewn achosion eraill efallai y byddwn yn gofyn am gyflogi ecolegydd i fod ar y safle'n gwylio dros rywogaethau penodol – er enghraifft rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth megis llygod pengrwn y dŵr ar safle'r gwaith o ddeuoli'r A5 ar draws Ynys Môn. Mewn achosion eraill, byddwn yn gweithio ar achosion cymhleth sy'n mynd ymlaen ers peth amser er mwyn sicrhau bod rhywogaethau prin neu bwysig, neu'r cynefin sy'n eu cynnal, yn cael eu diogelu, yn aml fel rhan o grŵp cydweithrediad neu brosiect.

Gwelwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu, a bod y rheolaeth lywodraethol yn medru cyflawni ei rôl i gadw safleoedd Gorchymyn Cynefinoedd mewn cyflwr ffafriol yw drwy weithio gyda'r datblygwyr, rheolwyr y tir neu bartneriaid mor fuan ac y bo modd, gan edrych am ffyrdd y gall datblygiad fod o fudd gwirioneddol i gadwraeth natur neu i'r tirwedd. Gwelwyd hyn ym Morfa bychan, lle rhoed caniatâd cynllunio yn 1963 ar gyfer casgliad o 800 o gabanau gwyliau. Ar ôl gweithio gyda Bourne Leisure, Cyngor Sir Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, rhoed caniatâd i adeiladu casgliad llai o lawer o'r cabanau. Gosodwyd amodau y byddai'r rhan fwyaf o'r system o dwyni'n cael ei rheoli fel gwarchodfa natur gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

## Datblygu ffynonellau adnewyddadwy o ynni

Mae CCGC yn cefnogi datblygiad ffynonellau adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy a rydd y sylw priodol i'r holl ddimensiynau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Ein barn ni yw bod canolbwyntio sylw'r datblygwyr ar y safleoedd, lle na fydd anghydfod ynghylch gwerth presennol neu sensitifrwydd y safle, yn gorfod bod o fudd i bawb yr effeithir arnynt drwyddo. Mae cynlluniau ar gyfer datblygiadau twrbeini gwynt ar y tir wedi creu anawsterau'n aml i CCGC oherwydd eu heffaith niweidiol ar fywyd gwyllt a'r tirwedd. Ym mis Chwefror 1999, trefnwyd cynhadledd gennym yn Llandrindod i archwilio'r ffyrdd y gellid cael twrbeini gwynt ar y tir i fod yn fwy cydnaws â thirwedd Cymru, a chynhaliwyd cynhadledd wedyn yn ddiweddarach yn Llandudno i archwilio'r potensial o ddatblygu ynni adnewyddadwy o Fôr Iwerddon, gan gynnwys y posibilrwydd o gael ffermydd twrbeini gwynt ar y môr. Roedd Irish Sea Forum Prifysgol Lerpwl yn gydwesteiwr y gynhadledd, a daeth dros 160 o bobl yno i gynrychioli'r mwyafrif o'r sefydliadau a oedd â diddordebau perthnasol. Mynegwyd llawer o ddiddordeb yn natblygiad ffermydd gwynt alltraeth, a gwelwyd hefyd y gallai fod potensial cyn bo hir ar gyfer datblygu ynni tonnau.

Casgliadau'r seminar oedd y dylai'r ymgynghorwyr a'r diwydiant gydweithio i sicrhau bod y broses y mae'r Llywodraeth yn ei datblygu ar gyfer delio â chynigion i greu ynni alltraeth yn berffaith glir, bod yr ymgynghoriadau'n cael eu trin yn effeithiol, bod safleoedd sensitif yn cael eu hosgoi, fel bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu llwyr barchu a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i adeiladu'r math o ddiwydiant a ddaw â buddion cymdeithasol ac economaidd ar raddfa leol a chenedlaethol i'r holl wledydd sydd o gwmpas Môr Iwerddon. Roedd teimlad cryf yn y seminar y dylai'r Llywodraeth gymryd yr awenau i ddatblygu ffordd strategol o benderfynu ar safleoedd y ffermydd twrbeini. Mae'r trafodion yn awr wedi cael eu cyhoeddi.

## *LANDMAP*

Mae *LANDMAP* yn offeryn ymarferol ar gyfer helpu i sicrhau datblygiad cynaliadwy. Mae'n acronym Saesneg am y broses o asesu a gwneud penderfyniadau am y tirwedd, ac mae wedi cael ei ddatblygu gan CCGC mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Asiantaeth Datblygu Cymru a mudiadau eraill sydd â diddordeb yn nhirwedd Cymru. Mae'r fethodoleg yn GIS-seiliedig ac wedi ei dyfeisio er mwyn medru integreiddio ystod eang o wybodaeth am y tirwedd i mewn i gronfa ddata sengl a all fod yn sylfaen a chefnogaeth i anghenion amrywiaeth o'r defnyddwyr terfynol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol i reolaeth y tirwedd. Erbyn diwedd y flwyddyn,

roedd 13 o awdurdodau lleol wedi ymrwymo i ddefnyddio'r system, a phan fydd manylion am Gymru gyfan ar gael, bydd LANDMAP yn offeryn strategol pwerus i fod yn sylfaen i ddefnydd cynaliadwy o'r tirwedd yng Nghymru.


## Cynllun datblygiad cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol

Gweithiodd CCGC yn agos gydag Uned Datblygiad Cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i lunio cynigion ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Datblygiad Cynaliadwy a dangosyddion ansawdd bywyd. Gwnaethom gyflwyniadau mewn 4 o gyfarfodydd teithiol pwyllgor rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ystyriai bwysigrwydd dyletswydd y Cynulliad i gynhyrchu cynllun ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Rhoesom ymateb manwl i ymgynghoriad y Cynulliad ar ei gynllun am ddatblygiad cynaliadwy. Rhoesom hefyd gefnogaeth i Asiantaeth Datblygu Cymru i ddatblygu ei pholisi ar ddatblygiad cynaliadwy.

## Addysg a hyfforddiant

Pwysleisiodd y trafodaethau yn y Cynulliad Cenedlaethol bwysigrwydd addysg a hyfforddiant. Bu Cyngor Addysg Amgylcheddol i Gymru, gyda chefnogaeth ariannol CCGC, yn paratoi strategaeth ar gyfer addysg amgylcheddol a fyddai'n chwarae rhan bwysig mewn addysg ar gyfer cynaliadwyedd. Pan welwyd bod gwaith y seminar ar fin cael ei gwblhau, dechreuodd y Cyngor Addysg Amgylcheddol i Gymru adolygu ei rôl ar gyfer y dyfodol.

Rhoesom nawdd i ystod eang o gyfleoedd hyfforddiant. Darparodd ein partneriaeth gyda LANTRA gannoedd o ddiwrnodau o hyfforddiant mewn sgiliau ar gyfer rheoli cefn gwlad – er enghraifft ar gyfer cynnal gwrychoedd, waliau a choetiroedd. Rhoes ein Gwobrau Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru gydnabyddiaeth i ffermwyr a ffermwyr ieuanc a ddefnyddiai'r sgiliau hyn. Rhoes CCGC gefnogaeth ariannol i gyrsiau perthnasol yng Nghanolfan Astudiaeth Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan y Bwlch ac mewn canolfannau astudio eraill. Ni chafodd hyrwyddo pwysigrwydd datblygiad cynaliadwy ei gyfyngu i addysg a chyfleoedd hyfforddiant ffurfiol. Rhoddwyd cefnogaeth gan ein Swyddfeydd Rhanbarthol i grwpiau cymunedol


Prosiect grant - ail adeiladu ffynnon ym mhentref Bryngwyn, Powys

lleol drwy ein rhaglen o gymhorthdal grantiau a rhoesom gefnogaeth hefyd i gynlluniau cyfredol gyda Sefydliad y Merched a chlybiau Ffermwyr Ifanc.

## Cyllid Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd

Mae CCGC wedi dal i fod â rhan yng ngweinyddiad rhaglenni cyllid adeileddol ar gyfer ardaloedd Amcan 5b (Cymru wledig) ac Amcan 2 (Deheudir Cymru ddiwydiannol), ac ar gyfer rhaglen INTERREG Cymru-Iwerddon, er mwyn helpu i sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy.

Ond fel y deuai rhaglenni 1994-99 i ben, mae CCGC wedi bod yn brysur yn darparu cyngor ar y rhaglenni Amcan 1, 2 a 3 newydd a allai gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy a Strategaeth Ddatblygiad Economaidd Genedlaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Yn neilltuol, buom yn ymwneud yn fawr iawn â gwaith i ddatblygu rhaglen Amcan 1 newydd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Roedd gan CCGC gynrychiolaeth ar y Gweithlu Ewropeaidd a Gweithgor Cyllid Adeileddol y Cynulliad Cenedlaethol. Ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, buom yn drafftio proffil amgylcheddol ar gyfer rhaglen Amcan 1, wedi ei seilio ar adroddiadau CCGC/CC ac adroddiadau Cyflwr yr Amgylchedd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. Ar sail hwn buom yn cynhyrchu strategaeth ar gyfer hyrwyddo

cynaliadwyedd amgylcheddol fel thema croesdoriadol o raglen Amcan 1. Ar y cyd ag Asiantaeth Datblygu Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, buom yn rhedeg seminar ym mis Medi ar Raglen Amcan 1 i Hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, lle buom yn rhoi canllawiau - a ddarparwyd gan ymgynghorwyr - ynghylch y modd y gellid defnyddio Amcan 1 i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Rydym, ers hynny, wedi dosbarthu oddeutu 200 o gopïau o'r canllawiau hyn. Mae CCGC hefyd wedi dal i weithio gyda Phartneriaeth Dwyrain Cymru i ddatblygu rhaglen Amcan 2 newydd ar gyfer dwyrain Cymru. Bu cynrychiolaeth o CCGC hefyd ar weithgor y Cynulliad Cenedlaethol a fu'n asesu'r cryfderau a'r gwendidau o safbwynt amgylcheddol a oedd yn rhaglen INTERREG Cymru-Iwerddon 1994-99, fel paratoad ar gyfer y rhaglen newydd.

Cafodd gwaith CCGC ar raglen Cyllid Adeileddol fudd mawr o fod yn aelod o Ganolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) ym Mrwsel, ac o'r cyngor a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Gan weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Ewropeaidd Cymru, trefnodd CCGC seminar i hyrwyddo rhaglen amgylcheddol LIFE yr Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr, a daeth 130 o bobl o amryw o wahanol sefydliadau yno. Gwnaed trefniadau yn ystod y flwyddyn i Rob Owen, swyddog gyda'r CCGC, gael ei secondio i Ganolfan Ewropeaidd Cymru am gyfnod o 2 flynedd ym mis Ebrill 2000.

## Rhaglen cymorthdal grant CCGC

Gwariwyd £3.042 miliwn gennym yn 1999 mewn cynhorthdal grant i'n partneriaid, a heb eu cefnogaeth a'u gweithgaredd hwy ni allai CCGC gyflawni ei amcanion. Derbyniodd 270 o gynlluniau gyllid yn uniongyrchol oddi wrth CCGC a chafodd eraill fudd yn anuniongyrchol oddi wrth rai o'r grantiau hynny. Roedd y gwaith a wnaed yn gyflenwol i amcanion CCGC ac yn cwmpasu cadwraeth natur, ychwanegu at harddwch y tirwedd, gwella mynediad i gefn gwlad, a phrosiectau dehongli ac addysgu. Rhai o brif dderbynwyr cymhorthdal grantiau ar lefel genedlaethol oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RSPB, Ymgyrch i Ddiogelu Cymru Wledig, Sefydliad y Merched a Chlybiau Ffermwyr Ifanc. Rhoesom gymhorthdal grant hefyd tuag at waith awdurdodau lleol a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a gwaith LINK sy'n chwarae rhan bwysig yn cydlynu diddordebau mudiadau'r sector gwirfoddol. Mae ein cefnogaeth i lawer o'r cynlluniau'n cael ei rhoi am waith ar lefel gymunedol lle mae mudiadau megis Ymddiriedolaethau Groundwork, Cadw Cymru'n Daclus, *Black Environmnet Network*, Grŵp Amgylcheddol Abertawe a Sustrans yn gweithredu fel catalydd.

Mae'r enghreifftiau o'r gwaith cymhorthdal grantiau a wnaed ar lefel leol yn cynnwys:

- Yn Ne Cymru, 95 o gynlluniau coetiroedd a gwelliannau i 12 o Warchodfeydd Natur Lleol ac mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ar hyd yr Arfordiroedd Etifeddiaethol, ynghyd â 350 km o lwybrau a ffyrdd mynediad.
- Datblygiad Cynllun Cerdded er Lles Iechyd gyda Chyngor Bwrdeisdref Sirol Casnewydd.
- Ym Môn a Gwynedd, rhoi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar waith.
- Deunydd hyrwyddol gan Gyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy i hyrwyddo'r defnydd o wasanaeth Rheilffordd Dyffryn Conwy a Dyffryn Lledr a mynediad i gefn gwlad oddi wrth y rheilffordd.
- Gwelliannau i'r tirwedd gan Gyngor Sir Dinbych yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, a gwasanaeth bysus newydd yn yr haf i hyrwyddo mynediad at y fan gyda chludiant cyhoeddus.
- Cwblhau llwybr marchogaeth cylchol 23 milltir o hyd yng Nglyn Ceiriog.
- Datgan Coedydd Pwllycrochan, Nant y Coed, Moel Findeg a Llynnoedd Llwyni yn Warchodfeydd Natur Lleol.
- Safleoedd cadwraeth natur ym Mharc Arfordirol y Mileniwm yn Llanelli.
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Cyngor Sir Penfro.
- Cefnogaeth i Grwpiau LEADER yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin i agor llwybrau cerdded.
- Cefnogaeth i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gorllewin Cymru er mwyn cyflogi Warden ar gyfer Sgomer.

## Bioamrywiaeth

| | Targed 1999-00 | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Tir Gofal | 600* o gytundebau | 472 o gynigion wedi eu gwneud | Bydd y gweddill o'r 600 o gynigion yn cael eu gwneud yn ystod 2000-01. Gwneir y taliadau dechreuol i'r holl 600 o ffermydd yn 2000-01 fel y cynlluniwyd. |
| Dynodi/Ailddynodi SoDdGA | 55 | 44 | Oherwydd gorfod symud staff ychwanegol i'r Tir Gofal a phroses safoni ACA, ni chyrhaeddwyd y targed. Golygodd hynny rywfaint o dangyflawniad hefyd yn y targedau ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. |

* Roedd y targed hwn yn dibynnu ar gyfartaledd y gost i bob fferm a maint y cyllid yn gyffredinol. Dim ond ar gyfer rhoi i oddeutu 300 o ffermydd y byddai cyllideb wreiddiol Tir Gofal wedi ei chaniatáu, ond mae penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd i ddyblu'r gyllideb ar gyfer taliadau Tir Gofal wedi golygu y gellir rhoi taliadau i 600 o ffermydd yn 2000/01. Bydd nifer yr hectarau a gwmpasir gan y cytundebau tua 60,000 o'i gymharu â'r 43,000 a gynlluniwyd.

## Mynediad

| | Targed 1999-00 | Perfformiad | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cynorthwyo i weithredu cynigion y Llywodraeth ar gyfer mynediad i ardaloedd agored cefn gwlad. gyfer | ✔ | ✔ | Ar ôl derbyn cymorth grant ychwanegol mae CCGC wedi cynghori ynghylch diffinio amapio ardaloedd agored cefn gwlad ac ynghylch maint yr ardaloedd agored eraill yng nghefn gwlad. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar y Cylch Gwaith ar sefydlu Fforwm Mynediad Cenedlaethol. Gwnaed pedwar ymarfer mapio peilot a chynhaliwyd cyfarfodydd ar gyfer dilyniant i'r gweithgareddau. |
| Hyd newydd y Llwybrau Cyhoeddus i gael ei ddiffinio, ei wella a'i hysbysebu gan ddefnyddio cymhorthdal grant CCGC | 1500 km | 1200 km | Mae'r lleihad yn adlewyrchu'r ffaith bod costau am bob km o welliannau hawliau tramwy'n cynyddu wrth i'r awdurdodau lleol ddechrau taclio'r rhannau ohonynt lle mae angen gwaith peirianyddol etc. |
| Rhwydweithiau llwybrau yhoeddus yn gwasanaethu cymunedau ac wedi eu cysylltu â chludiant cyhoeddus. | 3astudiaeth beilot gan y *Transport Advisory Service* | Gorffennwyd yr astudiaethau | |

## Tirwedd

| | Targed 1999-00 | Perfformiad |
|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol yn ymgymryd ag asesiadau (cynyddol) LANDMAP | 13 | 13 |
| Datblygu dull ar gyfer asesu morluniau | ✔ | Astudiaeth hanesyddol/ddiwylliannol wedi ei chomisiynu a dulliau wedi eu trefnu ar gyfer rhoi prawf mewn astudiaethau achos yn 2000-01 |

**TARGEDAU CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH (Mabwysiadwyd ym Mehefin 1998)** -Targedau Enghreifftiol Dethol ar gyfer Cymru a ddeilliodd o Dargedau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DG

Mae rhaglen ddynodi SoDdGA y Cynllun Corfforaethol wedi ei chysylltu'n fras â phum cynefin Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a enwir yn y tabl isod. Mae yna 16 o fras grwpiau o gynefinoedd y bydd angen rhoi ystyriaeth iddynt wrth gynllunio rhaglen ddynodi SoDdGA. Yr amcan yw dynodi ardal benodedig o gynefinoedd CGB, gan ganolbwyntio ar y pum cynefin a dargedir, a sicrhau hefyd nad yw'r 16 cynefin arall yn cael eu hesgeuluso.

| **CYNEFINOEDD** | **CYDRANNAU CYNEFINOEDD** | **Cyfartaledd Targedau 1999/20 – 2001/02** | | **Perfformiad** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Coetiroedd o goed collddail,<br>coed cymysg a choed yw | Coetir derw'r ucheldir<br>Coetir ffawydd yr iseldir<br>Coed ynn cymysg yr ucheldir<br>Coetir Gwlybion<br>Porfa goetir a pharcdir yn yr iseldir | Dynodi 220 hectar y flwyddyn yn ychwanegol fel SoDdGA | 173.5 | | |
| Ffendir, cors a siglen | Glaswellt y gweunydd a phorfeydd brwynog<br>Ffendir<br>Corsle | Dynodi 230 hectar y flwyddyn yn ychwanegol fel SoDdGA | 121.6 | | |
| Rhostir o brysgwydd isel | Rhostiroedd yr iseldir<br>Rhostiroedd yr ucheldir | Dynodi 750 hectar y flwyddyn yn ychwanegol fel SoDdGA | 30.7 | | Bydd blociau mawr yr ucheldir yn y blynyddoedd sydd i ddod yn galluogi cyflawni cyfartaledd dros 3 blynedd |
| Glaswelltir niwtral | Gweirglodd iseldir<br>Gweirglodd Ucheldir | Dynodi 100 hectar y flwyddyn per year as SSSI | 80.5 | | |
| Corsydd | Cyforgors iseldir<br>Gorgors | Dynodi 20 hectar y flwyddyn yn ychwanegol fel SoDdGA | 39.7 | | |
| Cynefinoedd CGB eraill | - | 600 ha | 355 | | |
| Lagwnau heli<br>a. Sefydlu rhestr o holl lagynau heli Cymru | | ✔ | Adroddiad rheolaeth wedi ei gwblhau | | |

| **RHYWOGAETHAU** | **Targed 1999/00** | **Perfformiad** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| Ystlum pedol mwyaf: | | | |
| a. Dynodi safle clwydo | ✔ | ✔ | |
| Pathew: | | | |
| a. Cwblhau amrediad yr arolwg a'r defnydd o'r cynefin | | | |
| Pryf lladd: | | | |
| a.Sefydlu rheolaeth o boblogaethau'r SoDdGA presennol | ✔ | ✔ | Yn bodoli yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Crymlyn, Gweirgloddiau Brockwell a'r Hen Gilgwyn |
| b. Dynodi safleoedd nad ydynt yn SoDdGA sydd â'r poblogaethau mwyaf | 1 | 1 | 1 Safle wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor, Mawrth 2000 |
| Alga Coch *Anotrichium barbatum* | | | |
| a. Sefydlu maint y boblogaeth ym Mae Tremadog | ✔ | ✔ | Gwnaed yr arolwg yn ystod yr haf. Adroddiad drafft terfynol wedi ei gwblhau. Y boblogaeth yn amrywio'n fawr o ran maint yn ôl y tywydd. |
| Llamhidydd | | | |
| a. parhau'r ymchwil ar ardaloedd a fynychir gan y llamhidydd | | | Adroddiadau terfynol ar 3 astudiaeth wedi eu cwblhau a'u dosbarthu i adrannau'r Llywodraeth ac i bartneriaid eraill. |

# Atodiad 2 RHESTR O ACRONYMAU

| | | |
|---|---|---|
| yACA | - | ymgeisydd am Ardal Cadwraeth Arbennig |
| DETR | - | Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau |
| AyrA | - | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| CAAN | - | Cyngor Addysg Amgylcheddol yng Nghymru |
| AAA | - | Ardal Amgylchedd Arbennig |
| CC | - | Comisiwn Coedwigaeth |
| ACD | - | Arolwg Cadwraeth Daearegol |
| JNCC | - | Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur |
| LBAP | - | Local Biodiversity Action Plan/Cynllun Gweithredu Bio-amrywiaeth Lleol |
| MAFF | - | Y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd |
| GNF | - | Gwarchodfa Natur Forol |
| CCC | - | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| GNC | - | Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol |
| ACAy | - | Ardal Cadwraeth Arbennig dan ystyriaeth |
| RSPB | - | Cymdeithas Gwarchod Adar (Royal Society for the Protection of Birds) |
| SoDdGA | - | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| UKBAP | - | United Kingdom Biodiversity Action Plan |
| BDC | - | Bwrdd Datblygu Cymru (WDA) |
| WEC | - | Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| CFfIC | - | Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru |

## RHAGAIR

**1. Hanes y Corff a Chefndir Statudol**

Sefydlwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar 5 Tachwedd 1990 yn unol â darpariaethau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990, i gyflawni cyfrifoldebau statudol am hyrwyddo gwarchod y byd naturiol a gwella harddwch naturiol ynghyd â hybu adloniant a mwyniant yng nghefn gwlad Cymru, a chynghori'r Llywodraeth yngl~n â phob mater yn ymwneud â chefn gwlad a materion gwarchod natur fel y cyflwynwyd hwy yn Rhan VII Adran 130 y Ddeddf. Fe'i hariannir gan gymorth grant blynyddol oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru. O dan Ran VII Adran 132 (2)(a) y Ddeddf galluogir y Cyngor i dderbyn rhoddion a chyfraniadau i bwrpas ei swyddogaethau a ddiffinnir yn Adran 132 (2). Paratoir y Cyfrifon o dan baragraff 21 (1), Atodlen 6, y Ddeddf mewn ffurf a nodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Gellir cael copi o Gyfarwyddyd y Cyfrifon oddi wrth y Cyngor.

Sefydlwyd y Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur ar 5 Tachwedd 1990 gan Adran 128 (4) o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 i gyflawni swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Cyngor Gwarchod Natur a restrir yn Adran 133 y Ddeddf honno. Mae treuliau Uned Gefnogi'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur yn cael eu talu yn unol ag Atodlen 7 y Ddeddf ac yn cael eu talu mewn cyfartaledd i'r cyllid a gytunwyd gan y Cyngor Gwarchod Natur ar gyfer Lloegr, Scottish National Heritage a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae asedau a rhwymedigaethau yn eiddo ar y cyd i'r Cyngor Gwarchod Natur ar gyfer Lloegr, Scottish National Heritage a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi eu rhannu yn ôl y canran cyllido y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn honno.

**2. Cyllid**

Mae cymorth grant y Cyngor oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ariannu yr hyn sydd dros ben o'i wariant cyfalaf a refeniw (heb gynnwys dibrisiad) dros ei incwm. O 1 Gorffennaf 1999 daeth y Cyngor yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**3. Canlyniadau a Neilltuadau**

Mae Cyfrif Incwm a Gwariant 1990-00 yn cofnodi diffyg ar weithgareddau o £0.450 miliwn ar gyfanswm incwm o £26.439 miliwn dros gyfanswm gwariant o £26.889 miliwn.

Roedd yr incwm yn cynnwys £24.731 miliwn o grant y llywodraeth tuag at wariant refeniw. Yn ychwanegol derbyniodd y Cyngor £0.858 miliwn mewn grantiau tuag at wariant cyfalaf a £0.010 miliwn mewn perthynas â chyfran gwariant cyfalaf Uned Cefnogi'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur.

Cafodd incwm na ellir ei gadw o £1.560 miliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Tir Cymen ei anfon yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cymerwyd gweddill o £0.648 miliwn i'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Cafodd gweddill a oedd yn cael ei gadw o £0.827 miliwn ei ddwyn ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol gan roi gweddill a oedd yn cael ei gadw a gafodd ei ddwyn ymlaen o £1.475 miliwn.

**4. Asedau Sefydlog**

Ym 1999-00, prynodd y Cyngor werth £0.858 miliwn o asedau cyfalaf fel y rhoddir manylion yn eu cylch yn Nodyn 12.

Cedwir mwyafrif y tir fel gwarchodfeydd natur ac nid yw gwerth marchnad yn briodol.

**5. Polisi Talu Credydwyr**

Nodir amseru'r taliadau yn yr holl gytundebau ac archebion nwyddau a gwasanaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r norm yw talu o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb dilys, pa un bynnag yw'r diweddaraf.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cadw at egwyddor Cyfrifo'r Llywodraeth drwy amcanu at setlo pob bil o fewn y telerau a nodwyd. Yn ystod 1999-00, talodd y Cyngor 97% o anfonebau o fewn y telerau 30 diwrnod.

6. Aelodau'r Cyngor ar gyfer 1999-2000

EMW Griffith, CBE, DL* (Cadeirydd)1
J. Lloyd Jones, OBE †(Cadeirydd)2
Yr Athro D.Q. Bowen (Dirprwy Gadeirydd)3
Dr E.M.N. Andrews4
Yr Athro R.A. Dodgshon
Dr W.A. Evans
Mr T. Jones, OBE5
Mr R. Lovegrove, OBE
Mr R. Pratt
Mr B. Riddleston6
Mr D. Tomos
Yr Athro L. Warren7

* Daeth y tymor mewn swydd i ben ar 14 Ionawr 2000
† Dechreuodd y tymor mewn swydd ar 1 Mawrth 2000.

Aelodaeth o gyrff cyhoeddus eraill
1 Cadeirydd, Ymddiriedolaeth Ysbyty Glan Glwyd: Cadeirydd, Cyngor Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru
2 Cadeirydd, Cyngor Ymgynghorol Cymru i'r Comisiwn Coedwigaeth; Aelod, Bord Gron y DG ar Ddatblygiad Cynaladwy
3 Cadeirydd, Fforwm Parc Arfordirol y Mileniwm
4 Aelod, Pwyllgor Ymgynghorol Asiantaeth yr Amgylchedd
5 Aelod, Sefydliad Materion Cymreig, Cadeirydd (Cymru) Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol; Aelod, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
6 Aelod, Pwyllgor Ymgynghorol Asiantaeth yr Amgylchedd
7 Cadeirydd Grŵp Arolygu Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw

**7. Materion Cyfrifiadurol y Flwyddyn 2000**
Ni phrofodd y Cyngor unrhyw amhariad o ganlyniad i'r Flwyddyn 2000 neu ddiwrnod ychwanegol y flwyddyn naid sef 29 Chwefror 2000.

Gwnaeth y Cyngor arolwg llawn o'i systemau gweithrediadol a chefnogi allweddol a gweithredodd gynllun gweithredu o uwchraddio ac adnewyddu i sicrhau cydymffurfiad â'r Flwyddyn 2000. Rhoddwyd cynllun argyfwng yn ei le i ymdrin ag unrhyw fethiant annisgwyl mewn cyfrifiaduron neu fethiant ehangach yn yr isadeiledd (e.e. toriadau ar y p@er). Rheolwyd y prosiect gan Uwch Swyddog Cydymffurfiad â'r Flwyddyn 2000 amser llawn.

Gosodwyd a phrofwyd rhyddhad o System Cyllid y Cyngor yn cydymffurfio â'r Flwyddyn 2000 ac roedd yn gweithredu'n fyw o Ionawr 1999. Adnewyddwyd system y llyfrgell a gosodwyd fersiwn a oedd yn cydymffurfio yn ei lle ym mis Gorffennaf 1998. Cwblhawyd yr holl systemau busnes critigol eraill erbyn Hydref 1999.

**8. Pobl Anabl**
Mae Deddf Gwahaniaethu ynghylch Anabledd 1995 yn cyflwyno deddfwriaeth newydd i weithio yn erbyn y gwahaniaethu y mae pobl gydag anableddau yn ei wynebu.

Mae'n rhoi hawliau newydd i bobl sydd neu sydd wedi bod ag anabledd sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gyflawni gwaith arferol o ddydd i ddydd. Gall yr anabledd fod yn ffisegol, yn synhwyraidd neu yn feddyliol ond rhaid iddo fod yn sylweddol a rhaid iddo bara neu rhaid disgwyl iddo bara am o leiaf ddeuddeg mis.

Dyfarnwyd y symbol 2 dic cadarnhaol ynglŷn ag anabledd i'r Cyngor, statws a roddwyd gan y Gwasanaeth Cyflogaeth i gyflogwyr yn dilyn canllawiau arfer gorau wrth ymdrin â phobl gydag anableddau. Mae defnyddio'r symbol yn dangos i staff y Cyngor ac ymgeiswyr allanol fod y Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd gwaith i bobl gydag anableddau, a bydd yn eu barnu ar eu galluoedd yn unig.

**9. Cyfranogiad gweithwyr**
Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn sicrhau cyfranogiad gan weithwyr drwy Gyngor Whitley Cyngor Cefn Gwlad sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r undebau rheoli a llafur mewn amgylchedd gwaith. Cafwyd chwech o gyfarfodydd Pwyllgor Amcanion Cyffredinol yn ystod y flwyddyn ac mae'r trafodaethau wedi bod yn eang ac yn gynhyrchiol.

**10. Archwilwyr**
O dan baragraff 21 o Atodlen 6 i Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 bydd yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru yn archwilio ac yn ardystio datganiadau o gyfrif ac yn gosod copïau ohonynt, ynghyd â'i adroddiad, o flaen Cynulliad Cenedalethol Cymru.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR

O dan baragraff 21 o Atodlen 6 i Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 mae'n ofynnol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar ffurf ac ar y sail a benderfynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi barn gywir a theg o gyflwr materion y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a'i wariant a'i lifiadau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n rhaid i'r Cyngor:

- sylwi ar gyfarwyddyd y cyfrifon a gyhoeddwyd gan GCGC, gan gynnwys y gofynion perthnasol ynglŷn â chyfrifo a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas ar sail cyson;
- rhoi barnau ac amcangyfrifon ar sail rhesymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru fel y Swyddog Cyfrifo ar gyfer y Cyngor. Cyflwynir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus ac am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

## DATGANIAD LLYWODRAETH GORFFORAETHOL YNGHYLCH Y SYSTEM O REOLAETH ARIANNOL FEWNOL

1 Fel Swyddog Cyfrifo, rwy'n cydnabod fy nghyfrifoldeb am sicrhau bod system effeithiol o reolaeth ariannol fewnol yn cael ei chynnal a'i gweithredu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

2 Gall y system ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid absoliwt fod asedau yn cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n briodol, a bod camgymeriadau neu afreoleiddra sylweddol naill ai yn cael eu hatal neu y byddent yn cael eu darganfod o fewn cyfnod amserol.

3 Seilir y system o reolaeth ariannol fewnol ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys rhannu dyletswyddau a system o ddirpwyo ac atebolrwydd. Yn arbennig mae'n cynnwys:

- systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol sy'n cael ei harolygu a'i chytuno gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyngor;
- arolygon rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyngor o adroddiadau ariannol achlysurol a blynyddol sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
- gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
- canllawiau wedi eu diffinio'n glir ar gyfer rheoli buddsoddiad cyfalaf; a
- fel bo'n briodol, disgyblaethau ffurfiol ar gyfer rheoli prosiectau.

4 Mae gan y Cyngor uned archwilio mewnol, sy'n gweithredu i safonau a ddiffiniwyd yn Llawlyfr Archwiliadau Mewnol y Llywodraeth. Mae gwaith yr uned archwilio mewnol yn seiliedig ar ddadansoddiad o risg y mae'r Cyngor wedi ei amlygu iddo, a seilir cynlluniau archwilio mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwn. Cefnogir y dadansoddiad o risg a'r cynlluniau archwilio mewnol gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ac fe'u cymeradwyir gennyf i. O leiaf yn flynyddol, mae Pennaeth yr Archwiliad Mewnol yn rhoi adroddiad i mi ar weithgaredd archwiliadau mewnol yn y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system y Cyngor o reolaeth ariannol fewnol.

5 Mae fy arolwg i o effeithiolrwydd y system o reolaeth ariannol fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Archwilio sy'n goruchwylio gwaith yr archwilydd mewnol, y rheolwyr gweithredol o fewn y Cyngor sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith reolaeth ariannol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

6. Fel Swyddog Cyfrifo, rwy'n ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull ac rwy'n cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofyniad y Trysorlys am i ddatganiad o reolaeth fewnol gael ei baratoi ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2002, yn unol ag arweiniad i'w gyhoeddi ganddynt.

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 37 i 50 o dan baragraff 21 o Atodlen 6 Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn costau hanesyddol, fel y'u diwygiwyd hwy gan yr ail-brisiad o rai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifo a gyflwynwyd ar dudalennau 41 a 42.

### Cyfrifoldebau unigol y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 34, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol gan statud ac fe'u llywir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg ac a ydynt yn cael eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 a chyda'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn unol ag a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob agwedd wedi eu defnyddio at y pwrpasau y bwriadwyd hwy ar eu cyfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywio. Rwyf hefyd yn rhoi adroddiad os, yn fy marn i, nad yw'r Rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae'n rhaid i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad.

Rwy'n darllen yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Rwy'n arolygu a yw'r datganiad ar dudalen 35 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Cyngor ag arweiniad y Trysorlys: Llywodraeth Gorfforaethol: Datganiad ar y System o Reolaeth Ariannol Fewnol'. Rwy'n dweud os nad yw'n cwrdd â'r gofynion a nodwyd gan y Trysorlys neu os yw'r datganiad yn anghyson neu yn gamarweiniol gyda gwybodaeth arall rwy'n ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

### Sail barn

Bu i mi gyflawni fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio a nodwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'r archwiliad yn cynnwys ystyriaeth, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i'r cyfansymiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol a gynhwyswyd yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r barnau a wnaed gan y Cyngor a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor, yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn cael eu datgelu'n ddigonol.

Bu i mi gynllunio a pherfformio fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y bu i mi eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gam-ddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob agwedd berthnasol, wedi ei ddefnyddio i'r pwrpasau a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

### Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg o gyflwr busnes Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar 31 Mawrth 2000 ac o'r gweddill, cyfanswm cydnabyddedig yr enillion a'r colledion a'r llifiadau arian am y flwyddyn a ddiweddodd bryd hynny ac wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a

- ym mhob agwedd sylweddol mae'r gwariant a'r incwm wedi eu defnyddio i'r pwrpasau a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13th Gorffennaf 2000

COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES — ATODLEN 1
CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU — DATGANIAD 1

CYFRIF INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2000

| | NODIADAU | £000s | £000s | Blwyddyn Flaenorol £000s |
|---|---|---|---|---|
| INCWM GROS | | | | |
| Cymorth mewn grant | 19 | 24,179 | | 23,183 |
| Cymorth mewn grant a gymhwyswyd at Uned Cefnogi'r CBGN | 5 & 19 | 552 | | 524 |
| Rhan o incwm arall y CBGN | 5 | 101 | | 129 |
| Rhan o incwm arall y CBGN | 17 | 931 | | 759 |
| Incwm o weithgareddau | 2a | 76 | | 81 |
| Trosglwyddiad o ddarpariaethau | 18 | - | | 894 |
| Incwm Ewropeaidd a gedwir | 2b | 600 | | 791 |
| | | | 26,439 | 26,361 |
| GWARIANT | | | | |
| Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Diogelu Safleoedd | 3 | 3,104 | | 3,159 |
| Cefnogaeth wyddonol a thechnegol | 4 | 1,139 | | 1,336 |
| Cost flynyddol Uned Cefnogi'r CBGN | 5 | 642 | | 645 |
| Grantiau sy'n daladwy | 6 | 3,042 | | 3,232 |
| Grantiau Tir Cymen sy'n daladwy | 7 | 5,747 | | 5,498 |
| Costau staff a thaliadau i aelodau'r Cyngor | 9 | 8,492 | | 7,835 |
| Taliadau tybiannol - cost cyfalaf | | 190 | | 185 |
| Taliadau gweithredu eraill | 10 | 3,494 | | 3,436 |
| Prynu asedau treftadaeth y rhoddir dim gwerth iddynt | 12 | 99 | | 60 |
| Dibrisiad | 12 | 940 | | 808 |
| | | | 26,889 | 26,194 |
| (Diffyg)/gweddill ar weithgareddau | | | (450) | 167 |
| (Diffyg)/gwarged ar waredu asedau sefydlog | | | (4) | 6 |
| Llog y gellir ei dderbyn | | | 118 | 134 |
| (Diffyg)/gwarged ar weithgareddau arferol | | | (336) | 307 |
| Incwm Ewropeaidd na ellir ei gadw | 7 | | 1,560 | 1,494 |
| Addasiad ar gyfer taliadau tybiannol | | | 981 | 926 |
| Swm a ildiwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 11 | | (1,560) | (1,543) |
| Trosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn: | 17 | | 14 | 49 |
| Gwargedl ar weithgareddau am y flwyddyn ariannol | | | 659 | 1,233 |
| Gwargedl am y flwyddyn ariannol | | | 659 | 1,233 |
| Addasiad ar gyfer gwarged Uned Cefnogi'r CBGN | | | (11) | (8) |
| Swm a drosglwyddwyd i'r gwarged a gedwid am y flwyddyn | | | 648 | 1,225 |
| (Diffyg)/gwarged a gedwid ar 1 Ebrill | | | 827 | (398) |
| Gwarged a gadwyd ar 31 Mawrth | | | 1,475 | 827 |

Ystyrir yr holl weithgareddau fel rhai sy'n parhau

Mae'r nodiadau ar dudalennau 41 i 50 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES
CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2000

| | NODIADAU | £000 | £000 | Blwyddyn Flaenorol £000s |
|---|---|---|---|---|
| ASEDAU SEFYDLOG | | | | |
| Asedau cyffyrddadwy | 12 | | 2,218 | 2,250 |
| Cyfran o Uned Gefnogi'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur | 5 | | 88 | 86 |
| ASEDAU CYFREDOL | | | | |
| Stoc | 14 | 7 | | 7 |
| Dyledwyr | 15 | 1,018 | | 1,006 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 751 | | 238 |
| | | 1,776 | | 1,251 |
| CREDYDWYR | | | | |
| Swm sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 16 | (301) | | (424) |
| ASEDAU CYFREDOL NET | | | 1,475 | 827 |
| CYFANSWM YR ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL | | | 3,781 | 3,163 |
| ARIANNWYD GAN: | | | | |
| CRONIADAU AC INCWM A OHIRIR | | | | |
| Grant y Llywodraeth a ohiriwyd | 17 | 1758 | | 1831 |
| CRONFEYDD CYFALAF A REFENIW WRTH GEFN | | | | |
| Cronfa wrth gefn o asedau a roddwyd | 17 | 44 | | 46 |
| Cronfa Ailbrisio wrth gefn | 17 | 416 | | 373 |
| Cyfran o ddarpariaethau a chronfeydd wrth gefn Uned Cefnogi'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur | 5 | 88 | | 86 |
| Cronfa wrth gefn incwm a gwariant | | 1475 | | 827 |
| Cronfeydd y llywodraeth a phreifat | | | 3781 | 3163 |
| | | | 3781 | 3163 |

Mae nodiadau ar dudalennau 41 i 50 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

P Loveluck
Swyddog Cyfrifyddu

11fed Gorffennaf 2000

DATGANIAD LLIF ARIAN CYDGYFNERTHOL AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD AR 31 MAWRTH 2000

Cysoni gweddill o weithgareddau â'r llif arian net a ddaw i mewn o weithgareddau

| | NOTES | 1999/00 £000 | 1998/99 £000 |
|---|---|---|---|
| (Diffyg)/gwarged ar weithgareddau cyffredin | | (450) | 167 |
| Trosglwyddiad o gyfrif grant y llywodraeth a ohiriwyd | 17 | (931) | (759) |
| Dibrisiad | 12 | 940 | 808 |
| Gostyngiad mewn stoc | 14 | - | 45 |
| Cynnydd mewn dyledwyr | 15 | (12) | (284) |
| Gostyngiad mewn credydwyr | 16 | (123) | (3,052) |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 18 | - | (1,100) |
| Cyfraniad blynyddol net i'r CBGN | | (11) | (8) |
| Costau tybiannol | | 981 | 926 |
| Arian net yn dod i mewn o weithgareddau cyffredin | | 394 | (3,257) |

**DATGANIAD LLIF ARIAN**

| | | 1999/00 £000 | 1998/99 £000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddaus | | | |
| Gweithgareddau cyffredin | | 394 | (3,257) |
| Incwm Ewropeaidd na ellir ei gadw | 7 | 1,560 | 1,494 |
| Swm a ildiwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol | 11 | (1,560) | (1,543) |
| | | 394 | (3,306) |
| Elw ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid | 20 | 118 | 134 |
| Gwariant cyfalaf | 20 | (857) | (805) |
| | | (345) | (3,977) |
| Cyllido | 20 | 858 | 811 |
| Cynnydd /(gostyngiad) mewn arian | | 513 | (3,166) |

**Cysoni llif arian net yn dod i mewn â'r symudiad mewn cronfeydd net**

| | 1999/00 £000 | 1998/99 £000 |
|---|---|---|
| Cynnydd (gostyngiad) mewn arian yn y cyfnod | 513 | (3,166) |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 1999 | 238 | 3,404 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2000 | 751 | 238 |

Mae'r nodiadau ar dudalen 41 i 50 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

DATGANIAD 4

DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG

| | Nodiadau | 1999/00 £000 | 1998/99 £000 |
|---|---|---|---|
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | | 648 | 1225 |
| Gwarged (diffyg) ar ail-brisio asedau sefydlog | 12/17 | 41 | (19) |
| Symudiad yng nghyfran darpariaethau a chronfeydd wrth gefn y CBGN | 5 | 2 | 2 |
| Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig am y flwyddyn | | 691 | 1208 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 41 i 50 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Sail cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd gan ail-brisio rhai asedau sefydlog. Heb gyfyngu'r wybodaeth a roddwyd, mae'r Cyfrifon yn cwrdd â gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo cyn belled ag y mae'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon yn eithrio'r Cyngor o'r gofyniad i gynhyrchu datganiad o elw a cholledion ar gost hanesyddol.

### 1.2 Asedau Sefydlog a Dibrisiad

1.2a Polisi prisio

Mae tir, adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio a gwasanaethau ar gyfer gweithfeydd ar ardaloedd cadwraeth dynodedig wedi cael prisiad o ddim. Prisir tir ac adeiladau gyda rhyddfraint yn ôl pris y farchnad agored ar gyfer defnydd presennol neu gost adnewyddu wedi ei dan-brisio yn achos adeiladau arbenigol. Ceir prisiadau llawn bob pum mlynedd ac maent yn cael eu huwchraddio gan fynegeion priodol yn y blynyddoedd rhyngddynt.

Dangosir offer, cyfrifiaduron a cherbydau am bris cost, llai dibrisiad ac nid ydynt yn cael eu hail-brisio oherwydd ym marn y Cyngor ni fyddai addasiadau o'r fath yn berthnasol.

Cymerir addasiadau yn deillio o ail brisiadau i'r gronfa wrth gefn yn ymwneud ag ailbrisio. Codir unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

1.2b Dibrisiad

Darperir dibrisiad ar yr holl asedau sefydlog cyffyrddadwy, ac eithrio tir rhyddfraint, ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiad pob ased i'w werth gweddilliol yn wastad dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau gyda rhyddfraint | 50 o flynyddoedd neu'r oes a amcangyfrifir yn broffesiynol |
| Adeiladau gyda rhyddfraint (strwythurau tymor byr) | 20 mlynedd (neu lai os yn briodol) |
| Offer cyfrifiadurol | 3 blynedd (neu hyd at 10 mlynedd ar eitemau penodol) |
| Offer arall | 5 -10 mlynedd |
| Cerbydau | 5 mlynedd |

Didynnir swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiad a godir ar yr asedau wedi eu hail-brisio a'r hyn y byddid wedi ei godi pe bai'r asedau yn cael eu dangos ar bris cost o'r gronfa wrth gefn ar gyfer ail-brisio a'i gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

**1.2c Gwerthu Asedau Sefydlog**
Mae yr hyn a wneir o werthu Asedau Sefydlog yn cael eu hildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu cyfanrwydd, ac eithrio lle defnyddir yr elw ar gyfer adnewyddu tebyg am debyg.

**1.2d Asedau sy'n cael eu rhoi**

Mae gwerth asedau sy'n cael eu rhoi, neu roddion a ddefnyddir i brynu asedau sefydlog yn cael eu credydu i Gronfa wrth Gefn yr Asedau a Roddir. Didynnir swm sy'n cynrychioli dibrisiad ar yr asedau hyn o Gronfa wrth Gefn yr Asedau a Roddir ac fe'i credydir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

### 1.3 Y Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur

Ariannir Uned Cefnogi'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur [UCCBGN] ar y cyd gan Gyngor Gwarchod Natur Lloegr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Scottish National Heritage, sy'n berchen ar ei asedau ar sail cyfran y cytunwyd arni. Ystyrir UCCBGN gan y cyrff uchod yn "Drefniant ar y cyd nad yw'n Endid" fel y diffinwyd hynny gan FRS9. Mae'n cynhyrchu cyfrif ar wahân, a archwilir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac mae'r gyfran gyfatebol o incwm UCCBGN, ei wariant, ei asedau, darpariaethau a chronfeydd wrth gefn yn cael ei chynnwys o fewn datganiadau ariannol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar ffurf wedi ei thalfyru y cytunwyd arni o'r dull ecwiti.

### 1.4 Prisio stoc

Prisir stociau o gyhoeddiadau ar sail y cyntaf i mewn a'r cyntaf allan ar yr isaf o'r cost cynhyrchu uniongyrchol a'r gwerth net y gellir ei droi yn arian.

### 1.5 Trethiant

Nid yw'r Cyngor yn atebol i dalu Treth Corfforaeth na Threth Trosglwyddo Cyfalaf ar roddion a chymynroddion a dderbyniwyd. Dangosir incwm heb TAW. Dangosir gwariant a phryniadau asedau sefydlog yn cynnwys TAW, na ellir ei gael yn ôl fel arfer.

### 1.6 Cymorth mewn Grant

Caiff grantiau'r llywodraeth a dderbynnir sydd o natur refeniw neu a gymhwysir i brynu asedau gyda dim gwerth iddynt [gweler 1.2a] eu credydu i incwm yn y flwyddyn maent yn ymwneud â hi. Credydir grantiau ar gyfer gwariant cyfalaf i'r cyfrif grant llywodraeth gohiriedig, ac fe'u rhyddheir i refeniw dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn cyfansymiau cyfartal.

Mae Gwariant Ymchwil, Grantiau a roddir a thaliadau Cytundebau Rheoli yn cael eu codi i'r Cyfrif Incwm a Gwariant pan warir hwy.

## 1.8 Costau Tybiannol

Cost cyfalaf - Cynhwysir tâl cyfalaf tybiannol yn adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir mewn costau gweithredu ac fe'i cyfrifir yn ôl 6% o'r cyfalaf a ddefnyddir.

Gweler hefyd 1.9 - Gwerthoedd pensiynau.

## 1.9 Gwerthoedd Pensiynau

Mae staff yn aelodau o gynllun pensiwn y Cyngor a weithredir ar sail "talu wrth fynd ymlaen". Mae'r cynllun yn un "unfunded". Gan ddilyn cyngor y Trysorlys, cyfrifir cost pensiynau ar gyfer aelodau staff cyfredol drwy gyfeirio at ganran o'r tâl pensiynadwy sylfaenol. Ar gyfer 1999-2000 y canrannau oedd:

| Haen cyflog | Canran |
|---|---|
| £14,000 ac o dan | 12% |
| £14,001-£29,000 | 13.5% |
| £29,001-£50,000 | 16.5% |
| £50,001 a throsodd | 18.5% |

Mae'r tâl pensiwn i'r cyfrif incwm a gwariant yn cynnwys elfen dybiannol, sef y gwahaniaeth rhwng cost y pensiynau a gyfrifwyd fel yr uchod a'r swm a delir i bensiynwyr yn y flwyddyn. Mae'r elfen dybiannol hon yn cael ei hysgrifennu yn ôl wrth benderfynu ar y gweddill neu'r diffyg a gymerir i/o gronfeydd wrth gefn.

NODYN 2 - INCWM

| | | Blwyddyn flaenorol |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| a) Incwm o Weithgareddau | | |
| Incwm o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol | 53 | 40 |
| Dehongli | 10 | 8 |
| Ymchwil | 2 | 6 |
| Amrywiol | 11 | 27 |
| | 76 | 81 |
| b) Grantiau y gellir eu cadw o'r Gymuned Ewropeaidd | | |
| Grantiau o Raglen Strwythurol Amcan 5b | 433 | 421 |
| Grantiau Rhaglen LIFE | 127 | 268 |
| Grantiau Interreg | 40 | 72 |
| Grantiau UE eraill | - | 32 |
| Ad-daliad | - | (2) |
| | 600 | 791 |

NODYN 3 - RHEOLI GWARCHODFEYDD NATUR CENEDLAETHOL A DIOGELU SAFLEOEDD
[Y gost o brydlesu, rheoli a chynnal Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a chost taliadau i Dirfeddianwyr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig am reoli eu tir mewn dull sy'n fanteisiol i'r amgylchedd]

| | | Bwyddyn flaenorol |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol** | | |
| Cynnal y gwarchodfeydd | 887 | 744 |
| Prydlesau'r gwarchodfeydd | 41 | 35 |
| Cytundebau Rheoli Adran 16 y Gwarchodfeydd | 264 | 297 |
| **Costau Cytundebau Rheoli Adran 15** | | |
| Taliadau blynyddol gan gynnwys dyledion i berchnogion a deiliaid | 1,672 | 1,629 |
| Costau blynyddol a chostau gweithfeydd | 118 | 126 |
| **Costau cyfreithiol cysylltiedig** | | |
| Ymchwiliadau Cyhoeddus | 2 | 3 |
| Costau cyfreithiol yn ymwneud â Chytundebau Rheoli | 73 | 193 |
| **Costau eraill** | | |
| Gweithgareddau eraill [Ffyrdd-freintiau, Trwyddedau ac ati] | 49 | 51 |
| Ymgynghoriaethau yr Asiantaeth Tir | 111 | 97 |
| Ad-daliadau | (113) | (16) |
| | 3,104 | 3,159 |

Ymrwymiadau ynghylch Cytundebau Rheoli yn y dyfodol

O ganlyniad i gytundebau rheoli a gwblhawyd erbyn 31 Mawrth 2000, mae'r ymrwymiadau i daliadau blynyddol sy'n parhau fel a ganlyn:

| | £000 | £000 |
|---|---|---|
| Yn y flwyddyn ariannol nesaf | 1,271 | 1,128 |
| Ym mlynyddoedd 2 i 5 (yn flynyddol) | 827 | 610 |
| 5 mlynedd a throsodd. | 490 | 407 |

NODYN 4 - CEFNOGAETH WYDDONOL A THECHNEGOL

[Cost contractau i gefnogi rhaglenni gwyddonol a thechnegol CCGC a datblygu polisïau amgylcheddol i Gymru]

| | | Blwyddyn flaenorol |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Sail adnoddau Gwyddorau Naturiol | 426 | 494 |
| Sail Adnoddau Diwylliannol | 242 | 223 |
| Monitro Amgylcheddol | 169 | 266 |
| Gwyddoniaeth/Astudiaethau o Effaith Polisi | 29 | 33 |
| Arbrofion mewn Cynaladwyedd | 12 | 27 |
| Ymchwil i Ddatblygu Polisi | 122 | 142 |
| Coladu Systemau Data Gwyddoniaeth | 148 | 163 |
| Cynlluniau Arbennig | - | 3 |
| Costau Cynadleddau | 33 | 40 |
| Tanysgrifiadau Rhyngwladol | 13 | 12 |
| Ad-Daliadau ar Brosiectau ar y Cyd | (55) | (67) |
| | 1,139 | 1,336 |

NODYN 5 - BUDDSODDIAD YN UNED CEFNOGI'R CYD-BWYLLGOR GWARCHOD NATUR

Ariannir Uned Cefnogi'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur ar y Cyd gan y Cyngor Gwarchod Natur ar gyfer Lloegr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Scottish National Heritage ar sail cyfraniadau cyfartalog a gytunwyd. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau yn eiddo ar y cyd i'r tri chorff, ac wedi eu dyrannu ar sail y canran cyllido y cytunwyd arno am y flwyddyn honno. Y gyfran y cytunwyd arni ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru am 1999-00 oedd 13.8% [Blwyddyn Flaenorol 14%].

Y gyfran a ddyrannwyd o incwm a gwariant Uned Cefnogi'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur oedd:

| | | Blwyddyn flaenorol |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cymorth grant wedi ei neilltuo i'r CBGN | 552 | 524 |
| Cyfran o wariant y CBGN | (642) | (645) |
| Cyfran o incwm arall y CBGN | 101 | 129 |
| Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn | 11 | 8 |

Y symudiadau ym muddsoddiad y Cyngor yn Uned Cefnogi'r CBGN oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn | 11 | 8 |
| Addasiad ar gyfer newid mewn canran ariannu | 0 | 0 |
| Newidiadau eraill i werth yr asedau | (9) | (6) |
| Cynnydd mewn buddsoddiad am y flwyddyn | 2 | 2 |
| Gwerth buddsoddiad ar 1 Ebrill | 86 | 84 |
| Gwerth buddsoddiad ar 31 Mawrth | 88 | 86 |
| ariannwyd gan: | | |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 34 | 19 |
| Darpariaethau eraill a chronfeydd wrth gefn | 54 | 67 |
| | 88 | 86 |

Archwilir cyfrifon y Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac fe'u gosodir o flaen y Senedd fel atodiad i gyfrifon English Nature..

NODYN 6 - GRANTIAU SY'N DALADWY

| | Sector Gyhoeddus | Sector Breifat | Cyfanswm | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Rheoli Ardaloedd Dynodedig | 29 | 32 | 61 | 85 |
| Rheoli Ardaloedd heb eu Dynodi | 1,159 | 111 | 1,270 | 1,287 |
| Gwarchod Coedlannau | 13 | 34 | 47 | 23 |
| Prynu Tir | 4 | 73 | 77 | 100 |
| Datblygu'r Sector Gwirfoddol | - | 308 | 308 | 280 |
| Tirlun/Gwarchod Natur | 48 | 188 | 236 | 281 |
| Hawliau Tramwy | 43 | 34 | 77 | 62 |
| Llwybrau Cenedlaethol | 343 | 8 | 351 | 278 |
| Cynlluniau Arbennig | - | 363 | 363 | 385 |
| Cynllun Gwrychoedd | - | 252 | 252 | 460 |
| Grantiau a Hawlir yn ôl | - | - | - | (9) |
| | 1,639 | 1,403 | 3,042 | 3,232 |

NODYN 7 - GRANTIAU TIR CYMEN

| | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taliadau blynyddol | 3,976 | 3,818 |
| Cyfandaliadau | 1,771 | 1,680 |
| | 5,747 | 5,498 |

1. Mae Cyngor Cefn Gwlad yn gweithredu Tir Cymen o fewn fframwaith Cynllun Amaeth-Amgylchedd yr Undeb Ewropeaidd (Rheoliad 2078/92 y GE) ac mae ganddo hawl i wneud cais am ad-dalu 50 y cant o'r costau cymwys [tua 45 y cant o gostau'r cytundebau blynyddol]. Nid yw'r incwm yn incwm y gellir ei gadw ac y mae'n cael ei ildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Y cyfanswm yw £1.560 miliwn. [Blwyddyn Flaenorol 1.494 miliwn].

2. Ymrwymiadau yn y dyfodol ynglŷn â Chytundebau Tir Cymen
O ganlyniad i gytundebau Tir Cymen a gwblhawyd erbyn 31 Mawrth 2000, mae'r ymrwymiadau i'r taliadau blynyddol a thaliadau am waith sy'n parhau fel a ganlyn:

| | £000 | £000 |
|---|---|---|
| Yn y flwyddyan ariannol nesaf | 5,763 | 5,763 |
| Ym mlynyddoedd 2-5 (pon blwyddyn) | 4,533 | 5,763 |
| 5 mlynedd a throsodd. | 2,400 | 3,000 |

NODYN 8 - TIR GOFAL
1. Ymrwymiadau yn y dyfodol ar Gytundebau Tir Gofal
O ganlyniad i gytundebau Tir Gofal a gwblhawyd erbyn 31 Mawrth 2000, mae'r ymrwymiadau i'r taliadau blynyddol a'r taliadau am waith fel a ganlyn:

| | £000 | £000 |
|---|---|---|
| Yn y flwyddyn ariannol nesaf | 496 | - |
| Ym mlynyddoedd 2 i 5 (yn flynyddol) | 379 | - |
| 5 mlynedd a throsodd | 306 | - |

NODYN 9 - COSTAU STAFF A THL I AELODAU'R CYNGOR

Mae'r nodyn hwn yn cwrdd â gofynion datgelu cyfarwyddiadau Trysorlys EM yn DAO 3/95 a DAO 4/97. Mae Trysorlys EM a'r Cynulliad wedi cadarnhau nad yw'r cyfarwyddiadau newydd ynglŷn â datgelu wrth ryddhau gwybodaeth bersonol yn DAO 3/2000 - nad yw'r Cyngor wedi ei mabwysiadu - yn rhai na ellir eu gorfodi oherwydd bod posibilrwydd o wrthdaro â deddfwriaeth arall.

| | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| Cyfanswm y costau | £000 | £000 |
| Cyflogau | 6,987 | 6,338 |
| Yswiriant Gwladol | 471 | 429 |
| Pensiwn* | 1,018 | 984 |
| Gwerthoedd Trosglwyddo Pensiwn Net | (119) | (49) |
| Costau Ymddeoliad Cynnar | 135 | 133 |
| | 8,492 | 7,835 |
| Niferoedd Cyfartalog | 387 | 350 |

*Mae'r ffigur yn cynnwys £791,000 o gostau tybiannol [£741,000 y flwyddyn flaenorol] - gweler Nodyn 1.9

Cyflogir staff gyda'r Cyngor fel a ganlyn:

| | 1999-2000 | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr a'r Swyddfa Ganolog | 8 | 7 |
| Cyfarwyddiaeth Cadwraeth | 164 | 143 |
| Cyfarwyddiaeth Polisi Cefn Gwlad | 55 | 55 |
| Cyfarwyddiaeth Gwyddoniaeth | 35 | 35 |
| Grŵp Cyllid a Phersonel | 85 | 73 |
| Grŵp Rheoli Gwybodaeth | 30 | 26 |
| Uned Cefnogi'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur | 10 | 11 |

| | Aelodau'r Cyngor | |
|---|---|---|
| Blwyddyn Flaenorol | £000 | £000 |
| Tâl aelodau'r Cyngor gan gynnwys Yswiriant Gwladol | 91 | 93 |
| Tâl y Cadeirydd gan gynnwys Yswiriant Gwladol (E.M.W. Griffith) | 30 | 36 |
| Tâl y Cadeirydd gan gynnwys Yswiriant Gwladol (J. Lloyd-Jones) | 3 | - |

Ymddeolodd E.M. W. Griffith fel Cadeirydd ar ddiwedd ei benodiad ar 14 Ionawr 2000. Ar 1 Mawrth 2000, penodwyd J. Lloyd Jones yn Gadeirydd gan Brif Ysgrifennydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel penodiad pensiynadwy rhan amser am 130 diwrnod y flwyddyn.

Penodwyd aelodau'r Cyngor gan yr Ysgrifennydd Gwladol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru o 1 Gorffennaf 1999) ar sail rhan-amser [Is-Gadeirydd 48 diwrnod y flwyddyn ac aelodau eraill 30 diwrnod y flwyddyn]. Nid oes pensiwn yn mynd gyda'r penodiadau hyn ac eithrio i'r Cadeirydd.

Derbyniodd aelodau canlynol y Cyngor daliadau ar yr amrediadau canlynol:

| | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| "£10,001 - £15,000" | 2 | 2 |
| £ 5,001 - £10,000" | 8 | 9 |
| £ 0 - £ 5,000" | - | - |

**Prif Weithredwr**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm tâl y Prif Weithredwr yw: | | |
| Cyflog: | 62 | 59 |
| Bonws: | 4 | 4 |
| Cyfraniad Pensiwn Tybiannol Gweithwyr | 12 | 12 |
| | 78 | 75 |

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn y Cyngor. Penderfynir ar ei gyflog gan y Cyngor ac fe'i cymeradwyir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n gymwys i dderbyn bonws perfformiad yn seiliedig ar dargedau a

Uwch swyddogion

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cyflogi'r nifer canlynol o uwch swyddogion (gan gynnwys y Prif Weithredwr) sy'n dod o fewn yr amrediadau tâl canlynol:

| | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| £60,000 - £69,999" | 1 | 1 |
| "£50,000 - £59,999" | - | - |
| "£40,000 - £49,999" | 1 | 1 |

**Pensiynau s**

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy Gynllun Pensiwn Cyngor Cefn Gwlad Cymru y mae amodau Deddfau Pensiwn 1965 ac 1972 a diwygiadau dilynol yn berthnasol iddynt. Cynllun statudol yw hwn sy'n darparu budd-daliadau ar sail "cyflog terfynol" ar oed ymddeol arferol o 60. Mae budd-daliadau yn cronni ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Mae'r aelodau yn talu cyfraniadau o 1.5% o enillion pensiynadwy. Mae pensiynau yn cynyddu mewn taliadau yn unol â Mynegai y Prisiau Adwerthu. Ar ôl marwolaeth, mae pensiynau yn daladwy i'r gŵr/y weddw sydd ar ôl yn ôl cyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Wedi marwolaeth mewn gwasanaeth mae'r cynllun yn talu cyfandal o fudd-dâl sydd ddwywaith y tâl pensiynadwy. Mae ymddeol am resymau meddygol yn bosibl mewn achos o afiechyd difrifol. Yn yr achos hwn, mae pensiynau yn cael eu talu ar unwaith.

NODYN 10 - TALIADAU GWEITHREDU ERAILL

| | £000 | Blwyddyn Flaenorol £000 |
|---|---|---|
| Costau Llety | 836 | 647 |
| Costau Cludiant | 114 | 117 |
| Costau Swyddfa Cyffredinol | 548 | 619 |
| Prynu, Hurio a Chynnal Offer | 298 | 248 |
| Hyfforddiant | 230 | 227 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 440 | 388 |
| Lletygarwch | - | - |
| Datblygu Systemau Gwybodaeth | 427 | 343 |
| Gwasanaethau Corfforaethol Cyffredinol | 140 | 222 |
| Costau Cyfreithiol Amrywiol | 21 | 50 |
| Ffi Archwilio | 21 | 23 |
| Newid mewn Lefel Stoc | - | 45 |
| Cyhoeddusrwydd/Gwybodaeth/Addysg | 334 | 398 |
| Gwobrau | - | 1 |
| Mapiau | 61 | 91 |
| Llyfrgell | 78 | 80 |
| Ad-daliadau yn ymwneud â'r Gwasanaethau uchod | (54) | (63) |
| | 3,494 | 3,436 |

NODYN 11 - ARIAN A DDOSBERTHIR I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Incwm na ellir ei gadw sy'n daladwy i gynulliad Cenedlaethol Cymru

| | £000 | Blwyddyn Flaenorol £000 |
|---|---|---|
| Grantiau yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi Tir Cymen [gweler Nodyn 7] | 1,560 | 1494 |
| Gwerthoedd Trosglwyddo Pensiwn Net | - | 49 |
| | 1,560 | 1,543 |

O 1 Ebrill 1999 mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno y gall CCGC gadw unrhyw werth trosglwyddo pensiwn net i'w ddefnyddio yn erbyn costau pensiwn blynyddol

NODYN 12 - ASEDAU SEFYDLOG

| Offer | Cyfrifiaduron | Cerbydau | CYFANSWM | | Adeiladau/tir gyda rhyddfraint |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| COST NEU WERTH | | | | | |
| Fel ar 1 Ebrill 1999 | 1,371 | 1,108 | 3,008 | 818 | 6,305 |
| Ychwanegiadau | - | 108 | 610 | 140 | 858 |
| Gwarediadau | - | (11) | (81) | (4) | (96) |
| Ail-brisiadau | 55 | - | - | - | 55 |
| Fel ar 31 Mawrth 2000 | 1,426 | 1,205 | 3,537 | 954 | 7,122 |
| DI-BRISIAD | | | | | |
| Fel ar 1 Ebrill 1999 | 206 | 960 | 2,271 | 618 | 4,055 |
| Tâl am y flwyddyn | 41 | 76 | 719 | 104 | 940 |
| Gwarediadau | - | (5) | (82) | (4) | (91) |
| Fel ar 31 Mawrth 2000 | 247 | 1,031 | 2,908 | 718 | 4,904 |
| GWERTH PAPUR NET | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 1999 | 1,165 | 148 | 737 | 200 | 2,250 |
| Fel ar 31 Mawrth 2000 | 1,179 | 174 | 629 | 236 | 2,218 |

1. Yn unol â pholisi cyfrifo 1.2a, rhoddir pris sy'n gyfystyr â dim i dir treftadaeth ac adeiladau. Ym 1999-2000 prynodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru dir treftadaeth ac adeiladau am bris o £99,000 y codwyd tâl amdano i'r cyfrif Incwm a Gwariant (Blwyddyn Flaenorol £60,000).

2. Ceir ymrwymiadau cytundebol o £215,000 ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol (Blwyddyn Flaenorol £109,500).

NODYN 13 DADANSODDIAD O YMRWYMIADAU BLYNYDDOL O DAN BRYDLESAU GWEITHREDU

| | | Tir/adeiladau | | Offer | | Cerbydau | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | | £000 | | £000 | £000 |
| Prydlesau sy'n dirwyn i ben o fewn 1 flwyddyn | 23 am | 87 | - | | 3 am | 12 | 99 |
| Prydlesau sy'n dirwyn i ben o fewn 1 i 5 mlynedd | 10 am | 20 | 1 am | 3 | 3 am | 10 | 33 |
| Prydlesau sy'n dirwyn i ben dros 5 mlynedd | 49 am | 249 | | - | | - | 249 |
| | | 356 | | 3 | | 22 | 381 |

NODYN 14 - STOC

| | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyhoeddiadau | 7 | 7 |
| | 7 | 7 |

NODYN 15 - DYLEDWYR

| | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dyledwyr Masnach | 483 | 430 |
| Cyn-daliadau eraill | 343 | 287 |
| Dyledwyr eraill | 6 | 20 |
| Incwm cronedig arall | 156 | 229 |
| | 988 | 966 |
| Cyfansymiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag | 30 | 40 |
| un flwyddyn | 1,018 | 1,006 |

NODYN 16 - CREDYDWYR

| | £000 | Blwyddyn Flaenorol £000 |
|---|---|---|
| Yn daladwy o fewn un flwyddyn | | |
| Credydwyr Masnach | 263 | 369 |
| Credydwyr arall a Chroniadau | 38 | 55 |
| | 301 | 424 |

NODYN 17 - SYMUD CRONFEYDD

| | Grant Llywodraeth Gohiriedig | Cronfa Asedau a Roddwyd | Confa Ail-brisio | Darpariaethau a Chronfeydd wrthgefn y CBGN | Cyfrif Incwm a Gwariant | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| NODYN 17 - SYMUD CRONFEYDD | 1,831 | 46 | 373 | 86 | 827 | 3,163 |
| (Diffyg)/gwarged a gadwyd am y flwyddyn | - | - | - | - | 648 | 648 |
| Grantiau cyfalaf a rhoddion | 858 | - | - | - | - | 858 |
| Ail-brisio asedau sefydlog cyffyrddadwy | - | - | 55 | - | - | 55 |
| Trosgleyddiadau i Gyfrif Incwm a Gwariant | (931) | (2) | (12) | - | | (945) |
| Symudiad mewn Darpariaethau a Chronfeydd wrth gefn y CBGN | - | - | - | 2 | - | 2 |
| Gweddill ar 31 Mawrth | 1,758 | 44 | 416 | 88 | 1,475 | 3,781 |

NODYN 18 - RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU

Nid oes unrhyw rwymedigaethau na thaliadau

NODYN 19 - CYMORTH GRANT Y LLYWODRAETH

| | £000 | Blwyddyn Flaenorol £000 |
|---|---|---|
| Cymorth mewn grant ar gyfer y Cyfrif Incwm a Gwariant | 24,179 | 23,183 |
| Cymorth grant a gymhwyswyd at Uned Cefnogi'r CBGN | 552 | 524 |
| Addasiad i ymdrin â Chyfran Cyfrif Cyfalaf y CBGN | 10 | 18 |
| Cyfrif Grant Gohiriedig y Llywodraeth | 858 | 811 |
| Cyfanswm y Cymorth Grant a dderbyniwyd yn y flwyddyn | 25,599 | 24,536 |

NODYN 20 - NODIADAU I'R DATGANIAD LLIF ARIAN

| | £000 | Blwyddyn Flaenorol £000 |
|---|---|---|
| **Elw ar fuddsoddiad a gwasanaethu cyllid** | | |
| Llog a dderbyniwyd | 118 | 134 |
| **Gwariant cyfalaf** | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog cyffyrddadwy | (858) | (811) |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog cyffyrddadwy | 1 | 6 |
| | (857) | (805) |
| **Cyllido** | | |
| Grant gohiriedig y Llywodraeth a dderbyniwyd | 858 | 811 |

21. RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Yn dilyn dirwyn i ben Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ar 31 Mawrth 2000, mae'r Cyngor wedi etifeddu rhwymedigaethau a amcangyfrifir sydd oddeutu £1 miliwn, yn ymwneud ag adeiladu Gwarchodfa Gwlyptiroedd Lefelau Gwent. Mae'r rhwymedigaethau hyn ar hyn o bryd yn destun anghydfod cytundebol. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn talu cost y rhwymedigaethau a gytunwyd ac sy'n cael eu hetifeddu maes o law i'r Cyngor.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi holi ynglŷn â rheoleidd-dra taliadau cytundebau rheoli oherwydd nad ydynt hyd yma wedi eu hysbysu i'r Comisiwn i'w cymeradwyo fel Cymorth y Wladwriaeth. Mae'r materion sy'n ymwneud â hyn yn gyffredin i daliadau o'r fath a wneir gan holl asiantaethau gwarchod cadwraeth statudol y DG. Hysbyswyd y Comisiwn yn Rhagfyr 1999 y byddai cytundebau rheoli newydd ar ôl 1 Ionawr 2000 yn cydymffurfio â mesurau amaeth-amgylchedd yn y Rheoliad Datblygiad Gwledig a chyda Chanllawiau'r Gymuned am Gymorth y Wladwriaeth yn y Sector Amaethyddol. Mae mesurau i sicrhau'r cydymffurfiad hwn yn eu lle. Ceisiodd y Comisiwn gael gwybodaeth bellach ynglŷn â'n hysbysiad ym Mawrth a mis Mai ac yn dilyn cyfarfod a fynychwyd gan y Prif Syrfewr ym mis Mehefin, cafwyd cytundeb mewn egwyddor ynglŷn â chymeradwyaeth y Comisiwn. Rhagwelir y bydd cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth 'D G Agriculture' yn dod yn ystod y ddau fis nesaf. Er nad yw'r mater o beidio â hysbysu wedi ei setlo eto, credir ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw gosbau ariannol yn cael eu codi.

22. TRAFODION PHARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gorff cyhoeddus a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cael nifer o drafodion perthnasol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff eraill yr ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr adran sy'n gweithredu fel rhiant iddynt sef Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, Bwrdd Croeso Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru.

Yn ychwanegol, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cael nifer fechan o drafodion perthnasol gydag adrannau eraill y Llywodraeth a chyrff eraill y Llywodraeth ganolog. Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn wedi bod gydag English Nature a Scottish Natural Heritage.

Nid oes unrhyw rai o aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion sylweddol gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn ystod y flwyddyn.

Nodyn y cyfieithydd - Nid wyf yn gwybod beth yw DG Agriculture yn y par. olaf o dan rhif 21 ar dudalen 21